Ionawr 2017

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Y Modd y mae Awdurdodau Lleol yn Ariannu Gwasanaethau'r Trydydd Sector

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Llun y clawr: Mynd am dro yn y parc, gyda Age Connects Caerdydd a'r Fro. Mae gwirfoddolwyr Age Connects yn daparu cymorth a chwmni y mae gwir angen arnynt i bobl hŷn yn yr ardal leol. Un o'r 15 llun uchaf yng Nghystadleuaeth Ffotograffiaeth Aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2014.

Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Rheolwyd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru gan Nick Selwyn ac roedd yn cynnwys Gareth Jones, Kevin Sutch, Duncan Mackenzie a Martin Gibson o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.


**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**



Darperir pob llun gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.


Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.


© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys


Adroddiad cryno 6

Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn gwneud y defnydd gorau o'r trydydd sector nac yn gwneud digon i sicrhau eu bod yn cael gwerth am arian 6

Yr adroddiad hwn 7

Argymhellion 10

1 Ar y cyfan, nid oes gan awdurdodau lleol ddull strategol effeithiol o weithio gyda'r trydydd sector 11

Mae gwaith y trydydd sector gydag awdurdodau lleol yn cynyddu 12

Ar y cyfan, nid oes gan awdurdodau lleol ddull cynhwysfawr na chynlluniedig o weithio gyda'r trydydd sector 15

Mae awdurdodau lleol sy'n perfformio'n well yn deall eu gwaith gyda'r trydydd sector ac yn ei adolygu'n rheolaidd er mwyn symleiddio a gwella eu blaenoriaethau ariannu strategol 19

Mae gan bob awdurdod lleol gytundebau â'r trydydd sector ond nid ydynt bob amser yn gyfredol nac yn effeithiol 22

Nid yw gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn gyson effeithiol i ysgogi gwelliannau 23

Mae cynghorau gwirfoddol sirol yn chwarae rôl allweddol o ran canolbwyntio a chydgysylltu'r trydydd sector ond nid yw eu gwaith yn cael ei werthfawrogi na'i gydnabod bob amser ac mae gwendidau mewn trefniadau presennol yn tanseilio eu heffeithiolrwydd 27

2 Mae anghysondebau o ran trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer ariannu'r trydydd sector yn golygu ei bod yn anodd dangos gwerth am arian 31

Nid yw prosesau gwneud cais bob amser wedi'u symleiddio er mwyn helpu sefydliadau yn y trydydd sector i gyfranogi'n llawn 33

Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn defnyddio'r dull mwyaf priodol o ariannu gwasanaethau 38

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y contractau ar gyfer gwasanaethau ac mae'r gostyngiad yn y cymorth grant cyffredinol yn creu rhai anawsterau ar gyfer sefydliadau yn y trydydd sector 41

Gallai'r duedd gynyddol ddiweddar i awdurdodau lleol fynnu bod sefydliadau yn y trydydd sector yn ffurfio consortia i gyflwyno ceisiadau am gontractau beri risg i bob parti yn ogystal â chynnig cyfleoedd iddynt 45

Nid yw'r defnydd parhaus o ddyfarniadau ariannol blynyddol yn darparu ar gyfer ariannu'r trydydd sector mewn ffordd gynaliadwy 46

Mae adennill costau llawn yn dal i fod yn broblem i lawer o gyrff yn y trydydd sector 48

3 Ni all awdurdodau lleol ddangos effaith eu gwaith gyda'r trydydd sector yn gyson 50

Nid yw trefniadau awdurdodau lleol i fonitro ac adolygu perfformiad sefydliadau yn y trydydd sector bob amser yn gyson nac yn effeithiol 51

Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi pennu mesurau i'w galluogi i farnu effaith eu gwaith gyda'r trydydd sector yn gyson 56

Nid yw trefniadau craffu a rheoli risg ar gyfer gwerthuso a goruchwylio cyllid y trydydd sector bob amser yn addas nac yn effeithiol 58

4 Mae disgwyliadau newidiol o ran yr hyn y mae'n ofynnol i'r trydydd sector ei gyflawni yn cynnig cyfleoedd ac yn cyflwyno risgiau y mae angen eu rheoli'n ofalus er mwyn i'r buddiannau disgwyliedig gael eu cyflawni 62

Atodiadau

Atodiad 1 – Methodoleg yr astudiaeth 68

Atodiad 2 – Astudiaethau achos arfer da 71

Atodiad 3 – Rhestr wirio i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymgysylltu â'r trydydd sector ac yn gweithio gydag ef yn effeithiol 73

# Adroddiad cryno

## Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn gwneud y defnydd gorau o'r trydydd sector nac yn gwneud digon i sicrhau eu bod yn cael gwerth am arian

1 Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn darparu amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus pwysig sy'n hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y genedl. Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau hyn yn ofynnol yn statudol (h.y. mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu darparu), er bod rhai yn cael eu darparu o dan bwerau disgresiwn (mewn geiriau eraill, maent yn ddewisol). Yn ogystal â chymryd cyfrifoldeb uniongyrchol am ddarparu gwasanaethau, mae awdurdodau lleol hefyd yn rhoi arian i drydydd partïon ddarparu gwasanaethau ar eu rhan, fel arfer o dan delerau contract cyfreithiol.

2 Y **trydydd sector** yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r amrywiaeth o sefydliadau nad ydynt yn cael eu rhedeg gan y wladwriaeth ac nad ydynt yn rhan o'r sector preifat ac mae'n cynnwys mudiadau gwirfoddol a chymunedol (elusennau cofrestredig a sefydliadau eraill megis cymdeithasau, grwpiau hunangymorth a grwpiau cymunedol), mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydfuddiannol a mentrau cydweithredol. Mae sefydliadau trydydd sector yn amrywio o ran eu maint a'u cwmpas, o grwpiau cymunedol lleol i elusennau rhyngwladol mawr. Nid yw rhai yn cael unrhyw incwm o gwbl ac maent yn dibynnu ar ymdrechion gwirfoddolwyr tra bod eraill yn cael eu rhedeg gan staff proffesiynol cyflogedig. Mae gwaith ymchwil gan Lywodraeth Cymru[1] a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)[2] yn nodi bod y trydydd sector yng Nghymru yn cynnwys y canlynol: dros 32,500 o sefydliadau gwahanol; 230,000 o ymddiriedolwyr; 1.13 miliwn o wirfoddolwyr a phobl sy'n helpu yn eu cymuned; a 51,000 o gyflogeion.

3 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r fframwaith polisi strategol ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru yn ogystal â rhoi arian grant penodol i gefnogi'r trydydd sector – £240 miliwn yn 2013-14 a £208 miliwn yn 2014-15[3]. Drwy **Gynllun y Trydydd Sector**[4] a gwaith Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector[5] mae Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o bwyslais, ac yn dibynnu'n fwy, ar gynyddu cyfranogiad sefydliadau yn y trydydd sector fel partneriaid allweddol yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

4 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae awdurdodau lleol wedi lleihau eu rôl fel darparwyr gwasanaethau uniongyrchol, gan ddibynnu yn lle hynny ar ariannu darparwyr eraill, yn enwedig sefydliadau yn y trydydd sector. Mae'r achos dros gynyddu cyfranogiad sefydliadau yn y trydydd sector yn seiliedig ar fanteision amlwg. Gall sefydliadau yn trydydd sector fod yn sensitif i amgylchiadau lleol ac ymateb yn hyblyg i wahanol anghenion cymunedau. Gall cyrff yn y trydydd sector yn aml fod yn gystadleuol yn ariannol, gan fod eu costau sylfaenol yn gymharol isel a gan eu bod, fel elusennau, yn ailfuddsoddi gwargedion yn ôl yn y gwasanaethau a ddarperir. Er


1 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Written Evidence to the Committee for the Scrutiny of the First Minister: Welsh Government's Relationship with the Third Sector and Non-Governmental Bodies**, 20 Tachwedd 2013.
2 Mae CGGC yn cynrychioli ac yn cefnogi'r trydydd sector yng Nghymru gan ymgyrchu dros sefydliadau a rhoi cyngor a chymorth i aelodau. Caiff gwybodaeth am sefydliadau yn y trydydd sector ei diweddaru gan CGGC bob blwyddyn – **Dadansoddiad o gronfa ddata o fudiadau gwirfoddol Cymru Gyfan**, 4 Ionawr 2016.
3 **Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Grantiau 2015**.
4 Llywodraeth Cymru, **Cynllun y Trydydd Sector**, Ionawr 2014.
5 Sefydlwyd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn 2007 ac mae'n hwyluso ymgynghori â sefydliadau perthnasol yn y trydydd sector a chyrff yn y sector cyhoeddus ynghylch rhoi'r cynllun ar waith, ei redeg a'i adolygu; ac yn ystyried materion sy'n ymwneud â swyddogaethau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru sy'n effeithio ar y trydydd sector neu sy'n berthnasol iddo.

mwyn sicrhau dull ariannu cyson a thryloyw, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt y prosesau cywir ar waith, gan gynnwys cynllun strategol ar gyfer ariannu'r trydydd sector; systemau effeithlon ac effeithiol i gaffael gwasanaethau; a fframwaith monitro a gwerthuso i farnu perfformiad, effaith a chost.

## Yr adroddiad hwn

5 Yn yr adroddiad hwn, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, rydym wedi ystyried effeithiolrwydd trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer ariannu gwasanaethau'r trydydd sector. Nodir ein dulliau astudio yn Atodiad 1. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith maes archwilio mewn chwe awdurdod lleol, arolygon gyda staff awdurdodau lleol, sefydliadau yn y trydydd sector a chynghorau gwirfoddol sirol[6] ar ddull awdurdodau o ariannu gwasanaethau'r trydydd sector. Gwnaethom hefyd gwblhau cais am dystiolaeth gydag asiantaethau cyngor arbenigol er mwyn olrhain arian a roddwyd i'r trydydd sector; cyfweld â staff o oedd yn gweithio i sefydliadau yn y trydydd sector; ac adolygu amrywiaeth o ddogfennau gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chyrff yn y trydydd sector. Mae pedair prif elfen i ffocws ein hadolygiad fel y nodir yn Ffigur 1.

Ffigur 1 – Ffocws ein hadolygiad o'r modd y mae awdurdodau lleol yn ariannu gwasanaethau'r trydydd sector




6 Y cyngor gwirfoddol sirol yw'r sefydliad seilwaith ambarél ar gyfer y trydydd sector mewn ardal awdurdod lleol. Rôl y cyngor gwirfoddol sirol yw rhoi cyngor arbenigol, cymorth a gwybodaeth i sefydliadau lleol yn y trydydd sector mewn perthynas â materion sy'n effeithio arnynt, gan gynnwys arian a llywodraethu.

6 Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r archwiliad hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad **nad yw awdurdodau lleol bob amser yn gwneud y defnydd gorau o'r trydydd sector nac yn gwneud digon i sicrhau eu bod yn cael gwerth am arian**.

7 Rhwng 2001-02 a 2013-14 mae cyfanswm yr arian a ddyfarnwyd gan awdurdodau lleol i sefydliadau yn y trydydd sector wedi cynyddu o £68.2 miliwn yn 2001-02 i £248.8 miliwn yn 2013-14, sy'n gynnydd o 165.5% mewn termau real. Mae ariannu gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi parhau i fod yn flaenoriaeth yn gyson ac mae'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r arian a roddir gan awdurdodau lleol i gyrff yn y trydydd sector (er ei fod wedi gostwng, fel cyfran o'r gwariant cyffredinol, o 71.4% yn 2001-02 i 61.9% yn 2013-14).

8 Er gwaethaf y cynnydd yn yr arian a roddir gan awdurdodau lleol i ariannu gwasanaethau'r trydydd sector, mae i weithio strategol nifer o wendidau. Ychydig o awdurdodau lleol sydd â strategaethau neu fframweithiau corfforaethol, cynhwysfawr sy'n seiliedig ar ddata anghenion cywir o ansawdd da i lywio penderfyniadau, cynlluniau a gweithgarwch. Hyd yn oed lle mae bwriad strategol yn datblygu, mae cryn amrywiad o ran troi dyheadau yn gamau gweithredu. Mae'r awdurdodau lleol sy'n perfformio orau yn dechrau cynnal adolygiadau cynhwysfawr o'r modd y maent yn ariannu'r trydydd sector er mwyn nodi cyfanswm y gwariant ar y trydydd sector yn gywir a llywio penderfyniadau buddsoddi a sicrhau eu bod yn gyson.

9 Er bod gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol gytundebau ffurfiol â'r trydydd sector yn eu hardal, nid ydynt bob amser yn gyfredol nac ychwaith yn adlewyrchu'r trefniadau cydweithio presennol. Nid yw gweithgarwch partneriaeth yn gyson nac yn ddigon effeithiol i wella canlyniadau ac nid yw gwaith pwysig cynghorau gwirfoddol sirol bob amser yn cael ei werthfawrogi na'i gydnabod sy'n eu gwneud yn llai effeithiol.

10 Er mwyn cael y budd mwyaf o'r adnoddau a fuddsoddir yn y trydydd sector, mae angen i awdurdodau lleol gael prosesau gweinyddu da ar gyfer dyfarnu a rheoli'r gwaith a ariennir ganddynt. Os cânt eu cyflawni'n wael, gall y prosesau ariannu osod beichiau trwm ar y trydydd sector ac arwain at wastraffu adnoddau. Fodd bynnag, er bod awdurdodau lleol yn deall pwysigrwydd creu systemau effeithlon a syml i reoli'r modd y maent yn ariannu'r trydydd sector, ceir llawer o wendidau. Nid oes ffordd gywir nac anghywir o ddefnyddio grantiau ac mae angen i awdurdodau lleol sicrhau, wrth benderfynu pa wasanaeth sydd ei eisiau arnynt, eu bod yn defnyddio'r dull ariannu, y grantiau neu'r contractau gorau i gyflawni'r hyn a fwriedir gan neu drwy'r partner cyflawni mwyaf priodol a allai gynnwys y sector preifat a chynghorau cymuned yn ogystal â'r Trydydd Sector.

11 Mae ansawdd a hygyrchedd gwybodaeth awdurdodau lleol am y prosesau ar gyfer gwneud cais am gontractau a'r meini prawf a ddefnyddir i'w dyfarnu yn amrywio ac nid ydynt bob amser wedi'u symleiddio er mwyn helpu sefydliadau yn y trydydd sector i gyfranogi'n llawn. Nid yw awdurdodau lleol yn glir ynghylch pa opsiwn i'w ddefnyddio - proses gaffael gaeedig neu agored - wrth gaffael gwasanaethau'r trydydd sector ac mae llawer o sefydliadau yn y trydydd sector yn ystyried bod y lleihad mewn cymorth grant yn cael effaith andwyol arnynt. Mae penderfyniadau

awdurdodau lleol i barhau â dyfarniadau ariannol blynyddol a'r gostyngiad yn nifer yr awdurdodau sy'n gweithredu system adennill costau llawn ar gyfer prosiectau trydydd sector a ariennir yn parhau i gyflwyno heriau sylweddol i lawer o gyrff yn y trydydd sector. Yn gyffredinol, oherwydd y gwendidau hyn, nid yw'n glir a yw awdurdodau lleol yn sicrhau gwerth am arian yn gyson o'u buddsoddiad yn y trydydd sector.

12 Er mwyn cael y budd mwyaf o benderfyniadau ariannu, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir ar waith i reoli, gwerthuso a mesur perfformiad a chraffu arno. Nodwyd gennym fod trefniadau rheoli perfformiad yn rhy anghyson i roi lefel ddigonol o sicrwydd bod gwasanaethau yn gweithio'n dda a bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Nid yw llawer o sefydliadau yn y trydydd sector yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt ac mae angen iddynt gael gwell cymorth gan awdurdodau lleol. Mae trefniadau rheoli perfformiad gwael hefyd yn gwanhau atebolrwydd ac yn cyfyngu ar allu aelodau etholedig i graffu ar weithgarwch a pherfformiad yn effeithiol. Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi pennu mesurau i farnu effaith eu gwaith gyda'r trydydd sector yn gyson ac mae anghysondebau o ran trefniadau rheoli risg yn ei gwneud yn anodd i awdurdodau lleol ddangos pa mor dda y maent yn gweithio gyda'r trydydd sector.



Gwirfoddolwyr Stepping out Stroke Association Wales yn amlygu'r ffordd gyda balwnau ar adeg digwyddiad Step Out for Stroke ym Mhontypridd. Un o'r 14 llun uchaf yng Nghystadleuaeth Ffotograffiaeth Aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2014.

Ffynhonnell: WCVA

13 Gan y disgwylir i gyllid y sector cyhoeddus barhau i ostwng yn y dyfodol agos, mae Llywodraeth Cymru, drwy ei newidiadau deddfwriaethol diweddar a'i diwygiadau arfaethedig, yn rhagweld y bydd y trydydd sector yn chwarae rôl fwy amlwg yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau ledled Cymru. Mae cyfle a risg yn gysylltiedig â'r disgwyliadau hyn sy'n newid. Mae heriau sylweddol sydd â goblygiadau i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector, y mae angen ymdrin â hwy mewn modd cadarn a thrwy roi arweiniad clir. Ar yr adeg hon nid yw'n glir a ellir gwireddu'r dyheadau hyn.

## Argymhellion

14 Mae'r prif argymhellion sy'n deillio o'n gwaith fel a ganlyn:

| Argymhelliad | Pwy sy'n gyfrifol |
|---|---|
| A1 Er mwyn cael y budd mwyaf o benderfyniadau ariannu, mae angen i awdurdodau lleol a chyrff yn y trydydd sector sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir ar waith i reoli, gwerthuso a mesur eu gwaith gyda'r trydydd sector. Er mwyn helpu awdurdodau lleol a chyrff yn y trydydd sector i ddatblygu eu harferion gwaith, rydym yn argymell y dylai swyddogion awdurdodau lleol a'r trydydd sector ddefnyddio'r rhestr wirio yn Atodiad 3 i wneud y canlynol:<br>• hunanwerthuso cyfranogiad a threfniadau rheoli, perfformiad ac arfer presennol y trydydd sector;<br>• nodi lle mae angen gwella trefniadau cydweithio; a<br>• drafftio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r bylchau a'r gwendidau a nodwyd drwy'r ymarfer hunanwerthuso a'i roi ar waith. | Awdurdodau lleol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Chyrff yn y Trydydd Sector |
| A2 Mae trefniadau rheoli perfformiad gwael hefyd yn gwanhau atebolrwydd ac yn cyfyngu ar y gallu i graffu ar weithgarwch a pherfformiad y trydydd sector yn effeithiol. Er mwyn atgyfnerthu trefniadau goruchwylio ar gyfer y trydydd sector, rydym yn argymell y dylai aelodau etholedig graffu ar y rhestr wirio adolygiadau a gwblheir gan swyddogion a herio perfformiad swyddogion a'r awdurdod lleol o ran mynd i'r afael â bylchau a gwendidau yn rheolaidd. | Awdurdodau lleol |
| A3 Er mwyn helpu awdurdodau lleol a'r trydydd sector i fodloni disgwyliadau newidiadau polisi a newidiadau deddfwriaethol diweddar megis y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau a chymorth ar gyfer comisiynu a chydgysylltu gan egluro'r hyn y mae'n ei ddisgwyl gan awdurdodau lleol. Gallent gael eu darparu ar y cyd â Chanolfan Cydweithredol Cymru a/neu CGGC. | Llywodraeth Cymru |

Rhan 1

# Ar y cyfan, nid oes gan awdurdodau lleol ddull strategol effeithiol o weithio gyda'r trydydd sector

Bone Appétit, grŵp o gerddorwyr sydd wedi graddio o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ac sy'n gwirfoddoli'n rheolaidd ar gyfer Music in Hospitals. Yn y llun hwn maent yn codi ymwybyddiaeth am yr elusen yn y Senedd ym Mae Caerdydd, gan chwarae caneuon i blant ar Ddiwrnod Gŵyl Dewi. Un o'r 15 llun uchaf yng Nghystadleuaeth Ffotograffiaeth Aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2015.



1.1 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu rhesymeg glir i esbonio pam maent yn gweithio gyda'r trydydd sector a dylent fod yn glir ynghylch sut mae'r gwaith partneriaeth hwn yn eu helpu i gyflawni eu blaenoriaethau corfforaethol. Bydd dull strategol o weithio gyda'r trydydd sector yn sicrhau bod yr awdurdod lleol cyfan yn deall beth y gall y trydydd sector ei gynnig ac yn nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn ymgysylltu â'r trydydd sector a'i ariannu a barnu ei effaith ar gymunedau a thrigolion.

1.2 Er mwyn i awdurdodau lleol weithio'n effeithiol gyda'r trydydd sector, mae angen y canlynol arnynt:

- gwybodaeth gynhwysfawr a chadarn am anghenion lleol i'w galluogi i lunio gweledigaeth briodol a phennu blaenoriaethau strategol ar gyfer y trydydd sector er mwyn iddynt allu barnu'r effaith a gwelliant dros amser;
- prosesau ymgynghori da er mwyn manteisio ar wybodaeth arbenigol y trydydd sector a sicrhau ymrwymiad i gydweithio er mwyn gwireddu'r weledigaeth strategol y cytunwyd arni; a'r
- seilwaith partneriaeth cywir wedi'i ategu gan gytundeb i sicrhau bod trefniadau cydweithio yn effeithiol, yn adeiladol ac yn cyflawni'r hyn sydd ei angen.

1.3 Yn y rhan hon o'r adroddiad, rydym yn dadansoddi'r cynnydd yn yr arian y mae awdurdodau lleol yn ei roi i wasanaethau'r trydydd sector. Rydym hefyd yn ystyried dull strategol awdurdodau lleol o weithio gyda'r trydydd sector, gan adolygu cadernid strategaethau awdurdodau lleol, yr amrywiaeth o wybodaeth a ddefnyddir i nodi a blaenoriaethu camau gweithredu ac effeithiolwyd prosesau ymgynghori. Rydym hefyd yn ystyried pa mor dda y mae partneriaid yn cydweithio, gan adolygu'r strwythurau sydd ar waith ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ac, yn arbennig, rôl bwysig cynghorau gwirfoddol sirol. Rydym hefyd yn defnyddio gwybodaeth o'n harolygon gydag awdurdodau lleol, cynghorau gwirfoddol sirol a sefydliadau yn y trydydd sector, sy'n rhoi syniad da i ni o effeithiolrwydd trefniadau gweithio strategol a gweithredol awdurdodau lleol â'r trydydd sector. Yn Atodiad 1, rydym yn crynhoi cwmpas a chyfyngiadau ein gwaith arolygu.

## Mae gwaith y trydydd sector gydag awdurdodau lleol yn cynyddu

1.4 Dengys data a gyhoeddwyd gan Uned Ddata Llywodraeth Leol (LGDU) Cymru[7] ar ran CGGC, fod yr arian y mae awdurdodau lleol yn ei roi i wasanaethau trydydd sector wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Nododd gwaith ymchwil yr LGDU, a nodir yn Ffigur 2, rhwng 2001-02 a 2013-14, fod cyfanswm yr arian a ddyfernir gan awdurdodau lleol i sefydliadau yn y trydydd sector wedi cynyddu o £68.2 miliwn yn 2001-02 i £248.8 miliwn yn 2013-14, sy'n gynnydd o 165.5% mewn termau real[8].

7 Mae LGDU Cymru yn rhan o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac mae'n helpu awdurdodau lleol i reoli, defnyddio a gwerthuso data. Mae'r wybodaeth a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer ein hadolygiad yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan awdurdodau lleol yn 2001-02, 2003-04, 2009-10 a 2013-14. Y ffurflen ar gyfer 2013-14 yw'r wybodaeth fwyaf diweddar sydd ar gael yng Nghymru am yr arian a ddyfernir i wasanaethau'r trydydd sector gan awdurdodau lleol.

8 Lefel yr incwm gan ystyried effeithiau chwyddiant ar bŵer prynu. Mae incwm mewn termau real yn cyfeirio at y nwyddau a'r gwasanaethau y gallwch eu prynu heddiw o gymharu â phris yr un nwyddau a gwasanaethau y gallech fod wedi'u prynu mewn cyfnod cynharach.

Ffigur 2 – Cyllid a ddyfarnwyd i wasanaethau'r trydydd sector gan awdurdodau lleol mewn termau arian parod a thermau real yn ôl maes gwasanaeth rhwng 2001-02 a 2013-14

| Maes gwasanaeth | 2001-02 | 2003-04 | 2009-10 | 2013-14 | Newid mewn termau real |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Canolog | £4,949,000 | £4,475,000 | £4,852,000 | £6,108,000 | -10.0% |
| Diwylliant a Gwasanaethau Cysylltiedig | £4,898,000 | £5,558,000 | £4,726,000 | £4,351,000 | -35.3% |
| Gwasanaethau Addysg | £3,493,000 | £5,566,000 | £9,441,000 | £18,026,000 | 276.0% |
| Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoliadol | £315,000 | £1,425,000 | £2,449,000 | £7,007,009 | 1,521.0% |
| Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth | £274,000 | £530,000 | £860,000 | £811,000 | 115.7% |
| Gwasanaethau Tai | £2,556,000 | £21,283,000 | £11,443,000 | £45,181,000 | 1,187.9% |
| Gwasanaethau Cynllunio | £3,061,000 | £8,110,000 | £4,090,000 | £13,203,000 | 214.3% |
| Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol | £48,677,000 | £78,786,000 | £118,514,000 | £154,165,000 | 130.7% |
| **Cyfanswm** | **£68,223,000** | **£125,733,000** | **£156,375,000** | **£248,852,000** | **165.5%** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o arian a roddwyd i'r trydydd sector a luniwyd gan LGDU ar gyfer CGGC (mae'r data wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf).

1.5 Nododd gwaith ymchwil yr LGDU, ar gyfer chwech o'r wyth ardal lle mae awdurdodau lleol yn ariannu gwasanaethau'r trydydd sector, fod y buddsoddiad yn y gwasanaethau hynny wedi cynyddu'n sylweddol mewn termau real. Mae ariannu gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi parhau i fod yn flaenoriaeth yn gyson ac mae'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r arian a roddir gan awdurdodau lleol i gyrff yn y trydydd sector (er ei fod wedi gostwng, fel cyfran o'r gwariant cyffredinol, o 71.4% yn 2001-02 i 61.9% yn 2013-14). Y tu allan i faes gofal cymdeithasol, yr unig faes arall lle mae awdurdodau lleol yn buddsoddi cryn dipyn o arian yw cyllid ar gyfer gwasanaethau tai, sydd wedi cynyddu o 3.8% o'r holl arian a ddyfarnwyd i'r trydydd sector gan awdurdodau lleol yn 2001-02 i 18.2% o'r gwariant yn 2013-14. Roedd y chwe ardal arall, gyda'i gilydd, yn cyfrif am tua 20% o'r holl fuddsoddiad gan awdurdodau lleol yn y trydydd sector yn 2013-14. Rhwng 2001-02 a 2013-14 dim ond cyllid ar gyfer gwasanaethau canolog a diwylliant a gwasanaethau cysylltiedig sydd wedi gostwng mewn termau real.

1.6 Mae Ffigur 3 yn crynhoi'r newid yn y cyllid a ddyfarnwyd i'r trydydd sector gan awdurdodau lleol mewn termau arian parod a thermau real rhwng 2001-02 a 2013-14. Ac eithrio un awdurdod (a hyd yn oed yma mae'r cyllid wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf), mae awdurdodau lleol wedi cynyddu'r cyllid a ddyfernir ganddynt i wasanaethau'r trydydd sector mewn termau arian parod a thermau real. O ystyried lefel y buddsoddiad gan awdurdodau lleol yng ngwasanaethau'r trydydd sector, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn rhoi'r strategaethau, y systemau a'r prosesau cywir ar waith er mwyn cael y budd mwyaf o'u buddsoddiad. Ar gyfer awdurdodau lleol, mae hwn yn newid sylweddol, yn arbennig o ystyried y gostyngiadau parhaus mewn cyllid cyhoeddus, sy'n golygu bod angen datblygu dulliau newydd o weithio sy'n fwy cost-effeithiol ac effeithlon.

Ffigur 3 – Cyllid a ddyfarnwyd i wasanaethau'r trydydd sector gan awdurdodau lleol mewn termau arian parod a thermau real rhwng 2001-02 a 2013-14

| Awdurdod Lleol | 2001-02 | 2003-04 | 2009-10 | 2013-14 | Newid mewn termau real |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | £1,438,000 | £1,513,000 | £709,000 | £981, 000 | -50.2% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £3,759,000 | £5,979,000 | £8,322,000 | £7,127,000 | 38.1% |
| Caerffili | £2,083,000 | £2,734,000 | £6,367,000 | £10,179,000 | 256.0% |
| Caerdydd | £4,660,000 | £32,634,000 | £38,101,000 | £47,969,000 | 650.0% |
| Sir Gaerfyrddin | £2,356,000 | £4,781,000 | £10,730,000 | £20,922, 000 | 547.0% |
| Ceredigion | £1,282,000 | £5,424,000 | £12,464,000 | £11,805, 000 | 571.0% |
| Conwy | £2,567,000 | £3,976,000 | £4,921,000 | £5,340,000 | 51.6% |
| Sir Ddinbych | £1,688,000 | £2,268,000 | £3,273,000 | £5,986,000 | 158.0% |
| Sir y Fflint | £2,052,000 | £2,087,000 | £3,349,000 | £4,074,000 | 44.7% |
| Gwynedd | £5,082,000 | £5,523,000 | £11,683,000 | £16,044,000 | 130.0% |
| Ynys Môn | £1,002,000 | £2,180,000 | Nis cyflwynwyd | Nis cyflwynwyd | Dd/G |
| Merthyr Tudful | £1,081,000 | £1,143,000 | Nis cyflwynwyd | £4,387,000 | 195.7% |
| Sir Fynwy | £1,024,000 | £981,000 | £1,785,000 | £3,708,000 | 163.8% |
| Castell-nedd Port Talbot | £4,396,000 | £3,380,000 | Nis cyflwynwyd | Nis cyflwynwyd | Dd/G |

| Awdurdod Lleol | 2001-02 | 2003-04 | 2009-10 | 2013-14 | Newid mewn termau real |
|---|---|---|---|---|---|
| Casnewydd | £1,560,000 | £2,240,000 | Nis cyflwynwyd | Nis cyflwynwyd | Dd/G |
| Sir Benfro | £2,145,000 | £2,911,000 | £5,491,000 | £7,890,000 | 168.0% |
| Powys | £7,984,000 | £12,546,000 | £16,278,000 | £21,466, 000 | 95.9% |
| Rhondda Cynon Taf | £9,563,000 | £17,207,000 | Nis cyflwynwyd | £28,229, 000 | 115.0% |
| Abertawe | £7,289,000 | £6,465,000 | £16,701,000 | £25,086, 000 | 150.7% |
| Torfaen | £929,000 | £2,081,000 | £7,315, 000 | £15,080,000 | 1,082.8% |
| Bro Morgannwg | £2,446,000 | £4,263,000 | £4,598, 000 | £5,602,000 | 66.9% |
| Wrecsam | £1,808,000 | £3,419,000 | £4,289, 000 | £6,975,000 | 181.1% |
| **Cyfanswm** | **£68,223,000** | **£125,733,000** | **£156,375,000** | **£248,852,000** | **165.5%** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o arian a roddwyd i'r trydydd sector yn 2001-02, 2003-04, 2009-10 a 2013-14 a luniwyd gan LGDU ar gyfer CGGC (mae'r data wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf).

## Ar y cyfan, nid oes gan awdurdodau lleol ddull cynhwysfawr na chynlluniedig o weithio gyda'r trydydd sector

1.7 Bydd strategaeth gynhwysfawr ar gyfer gweithio gyda'r trydydd sector yn nodi egwyddorion a gweledigaeth yr awdurdod lleol ar gyfer y trydydd sector. Dylai'r strategaeth hefyd nodi'r canlyniadau y mae'r awdurdod lleol yn ceisio eu cyflawni ar gyfer trigolion a chymunedau. Er mwyn bod yn gwbl effeithiol, dylai'r strategaeth gwmpasu holl wasanaethau'r awdurdod lleol a bod yn seiliedig ar waith ymgynghori, dadansoddiad trylwyr o anghenion, blaenoriaethau ar gyfer gwella, y camau y bwriedir eu cymryd a'r canlyniadau a geisir wrth ddarparu gwasanaethau drwy'r trydydd sector.

1.8 Ni nododd yr un o'r awdurdodau lleol a ymatebodd i'n harolwg[9] fod ganddo un strategaeth ar gyfer gweithio gyda'r trydydd sector a'i ariannu; fodd bynnag, nododd saith o'r wyth fod ganddynt gyfres o strategaethau a chynlluniau ariannu gwasanaeth-benodol sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio fframwaith cyffredinol ar gyfer gweithio gyda'r trydydd sector a'i ariannu, yn eu barn hwy. Nododd yr awdurdod lleol arall a ymatebodd i'n harolwg nad oes ganddo strategaeth na fframwaith. Nid ymatebodd y 14 o awdurdodau eraill i'n harolwg.

9 Arolygwyd pob un o'r 22 o awdurdodau lleol, gan ofyn am wybodaeth am y mae modd y maent yn ariannu gwasanaethau'r trydydd sector. Cawsom wyth ymateb gan awdurdodau lleol (36%). Oherwydd y gyfradd ymateb isel nid ydym wedi gwneud defnydd helaeth o'r arolwg yn yr adroddiad.

1.9 Ar sail ein dadansoddiad o ddogfennaeth awdurdodau lleol, gwnaethom nodi bod gan chwe awdurdod lleol ddull strategol da o weithio gyda'r trydydd sector. Ar y cyfan, mae'r rhain yn awdurdodau lleol lle y ceir strategaeth gorfforaethol ar gyfer ariannu'r trydydd sector sy'n cwmpasu pob gwasanaeth a lle mae cyswllt clir rhwng y strategaeth ac egwyddorion corfforaethol cyffredinol. Mae gan y strategaethau gorau amcanion perthnasol, sy'n rhai CAMPUS[10] ac sydd hefyd yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau, ac sy'n cael eu hadolygu a'u gwerthuso'n rheolaidd. Fel arfer mae'r strategaethau hyn wedi'u hategu gan ddadansoddiad a dealltwriaeth dda o anghenion, gan gynnwys cydraddoldebau a'r Gymraeg, ac mae tystiolaeth o ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid i ddatblygu'r strategaeth. Mae'r strategaethau gorau hefyd wedi'u herio'n effeithiol wrth iddynt gael eu datblygu. Cânt eu hadolygu a'u gwerthuso'n barhaus ac maent yn destun gweithdrefnau rheoli risg effeithiol. Dengys Ffigur 4 sut mae Cyngor Sir y Fflint wedi datblygu ei ddull gweithredu strategol mewn perthynas â'r trydydd sector ers 2011.

1.10 Aseswyd bod gan 13 o awdurdodau lleol eraill ddull gweithredu strategol o ansawdd amrywiol ond bod bylchau a bod angen atgyfnerthu trefniadau er mwyn i ddyheadau'r awdurdod lleol gael eu gwireddu. Gwnaethom nodi hefyd fod gan dri awdurdod ddulliau gweithredu strategol gwael neu ddulliau gweithredu strategol nad oedd digon o dystiolaeth ar eu cyfer gyda bylchau sylweddol o ran cwmpas ac ansawdd cynlluniau, camau gweithredu, gwybodaeth am anghenion a'r trefniadau ar gyfer cefnogi cyflawni.

1.11 Drwy ein harolygon gyda chynghorau gwirfoddol sirol[11] ac asiantaethau cyngor yn y trydydd sector[12] profwyd ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth o drefniadau strategol presennol o fewn awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau'r trydydd sector. Ar y cyfan, nododd ein harolygon nad yw sefydliadau yn y trydydd sector yn credu bod gan awdurdodau lleol ddull strategol digonol o weithio gyda'r trydydd sector a chael y budd mwyaf ohono. Er enghraifft:

- noda'r naw cyngor gwirfoddol sirol nad oes gan eu hawdurdodau lleol strategaethau na fframweithiau ac nid oedd un cyngor gwirfoddol sirol yn gwybod;
- dim ond un cyngor gwirfoddol sirol a oedd o'r farn bod ei awdurdod lleol yn defnyddio data cywir a chynhwysfawr i nodi'r anghenion y mae'n ceisio eu diwallu a'r materion y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy drwy'r cyllid y mae'n ei roi i wasanaethau'r trydydd sector; a
- dim ond un cyngor gwirfoddol sirol a nododd fod yr awdurdod lleol yn dilyn ei strategaeth yn gyson.

10 Mae CAMPUS yn broses ar gyfer pennu nodau ac amcanion prosiect sy'n helpu i bennu mesurau perthnasol y gellir eu holrhain sydd â digon o adnoddau i'w cyflawni o fewn terfyn amser penodol. Mae CAMPUS yn acronym ac mae'n sefyll dros Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol.

11 Arolygwyd pob cyngor gwirfoddol sirol yng Nghymru a chafwyd 20 o ymatebion. Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) yn cwmpasu pedwar awdurdod lleol, sef: Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd a Sir Fynwy. Cawsom dair ffurflen unigol gan GAVO a oedd yn cwmpasu dau o'r pedwar awdurdod lleol a gwmpesir gan GAVO. At hynny, ni chwblhaodd Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot yr arolwg ond cafodd ei gyfweld fel rhan o'n gwaith maes. Yr ardaloedd awdurdod lleol lle nad oes gennym unrhyw wybodaeth o'r arolygon yw Sir Ddinbych, Castell-nedd Port Talbot, Sir Fynwy a Chasnewydd.

12 Cawsom ymatebion gan 33 o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyngor a gwybodaeth a ariennir gan awdurdodau lleol yng Nghymru, sy'n gymysgedd o gyrff cenedlaethol a lleol.

**Ffigur 4 – Cyngor Sir y Fflint – adolygiad o gyllid y trydydd sector**

Er mwyn i awdurdodau lleol a'r trydydd sector gydweithio'n effeithiol, dylai fod gan awdurdodau lleol ddull gweithredu strategol sy'n cysylltu â blaenoriaethau'r awdurdod lleol. Mae hyn yn  egluro i sefydliadau yn y trydydd sector sut y gallant gyfrannu at flaenoriaethau'r awdurdod lleol.

Roedd Cyngor Sir y Fflint wedi ystyried sut y gellid rhoi hyn ar waith. Roedd yr awdurdod, fel awdurdodau eraill, yn wynebu pwysau cyllidebol sylweddol ar gyllid ym mhob maes o'i wasanaethau. Roedd rhai o'r pwysau yn debygol o effeithio ar arian grant y cyngor i'r trydydd sector.

Ar y cyd â'r trydydd sector, roedd yr awdurdod eisoes wedi datblygu canllawiau ar reoli grantiau a oedd yn nodi'r glir sut mae'n rheoli grantiau i'r trydydd sector. Eglurodd yr awdurdod y caiff y trydydd sector ei drin yn yr un ffordd ag adrannau'r awdurdod o ran penderfyniadau cyllidebol. Er enghraifft, disgwylir i unrhyw gais am arian gan sefydliadau yn y trydydd sector gyd-fynd â blaenoriaethau allweddol yr awdurdod. Mae'r awdurdod wedi pwysleisio ei ymrwymiad i ddull gweithredu strategol drwy roi arian ar gyfer tair blynedd ond mae wedi nodi disgwyliadau'r awdurdod o ran sut y byddai'r arian yn lleihau yn ystod y tair blynedd yn glir.

Er mwyn pwysleisio'r ymrwymiad i'r trydydd sector weithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio'n fwy ar fusnes mae'r awdurdod wedi newid i gytundebau sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Roedd hyn yn golygu bod y sefydliadau llwyddiannus yn glir ynghylch yr hyn roedd yr awdurdod yn ei ddisgwyl gan yr arian grant a lefel y gwasanaeth y dylid ei ddarparu.

Ers 2000 mae'r awdurdod wedi rhoi arian craidd i rai sefydliadau yn y trydydd sector. Diben yr arian yw darparu sail ariannu fwy sefydlog i'r sefydliadau hynny fel y gallant gystadlu mewn ymarferion comisiynu. Mae'r awdurdod wedi cytuno ar arian craidd ar gyfer sefydliadau yn y trydydd sector ar gyfer cyfnod o dair blynedd o 2015-16 ymlaen. Mae'r awdurdod hefyd wedi mapio'r holl wariant a phwy yn y trydydd sector a oedd yn cael arian. Er bod adrannau unigol yn parhau i reoli eu prosesau eu hunain ar gyfer ariannu gwasanaethau'r trydydd sector, mae gan bolisi canolog yr awdurdod lleol rôl hirsefydlog o oruchwylio'r holl weithgarwch ariannu er mwyn sicrhau goruchwyliaeth ganolog effeithiol ym mhob rhan o'r awdurdod lleol.

Mae'r ffaith bod ganddo fethodoleg glir mewn perthynas ag ariannu yn helpu'r awdurdod a'r sefydliadau cysylltiedig i gynllunio at y dyfodol a deall lle mae'r awdurdod lleol am fod ymhen cyfnod penodol o amser.



Hyd yn oed os ydych yn teimlo'n isel – mae gwirfoddoli yn rhoi gwen ar eich wyneb! Taflwr paent gwirfoddol Mary Heath yn Ras Liwiau St David's Hospice, ras liwiau unigryw sy'n dathlu iechyd, hapusrwydd, unigoliaeth a chyfrannu at eich cymuned. Un o'r 15 llun uchaf yng Nghystadleuaeth Ffotograffiaeth Aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2016.

Ffynhonnell: WCVA

1.12 At hynny, hyd yn oed lle mae awdurdodau lleol wedi sefydlu fframweithiau i lywio eu gwaith gyda'r trydydd sector, roedd partneriaid yn teimlo nad yw'r rhain yn cael eu rhoi ar waith yn gyson fel arfer a bod ganddynt gyfyngiadau yn aml, yn enwedig o ran cadernid, ansawdd a natur gynhwysfawr asesiadau o anghenion a galw. Gwnaethom hefyd ganfod tystiolaeth bod adrannau unigol yn defnyddio data a gwybodaeth leol i lywio'r gwaith o gynlluniau gwasanaethau – er enghraifft, yn Nhorfaen, mae'r trydydd sector yn cyfrannu at y gronfa ddata mapio anghenion sy'n bwydo i mewn i strategaeth comisiynu tai pum mlynedd. Fodd bynnag, nododd cynghorau gwirfoddol sirol, os nad oes gan awdurdodau lleol strategaeth hirdymor glir, fod prosesau ariannu wedyn yn canolbwyntio ar bynciau llosg - sef blaenoriaethau uniongyrchol sy'n gofyn am ymyriad byrdymor ond nad ydynt bron byth yn gofyn am ymateb parhaol - yn hytrach na gwasanaethau ataliol tymor hwy a fydd yn sicrhau buddiannau gwell ac ehangach i'r gymuned a'r awdurdod lleol. Adlewyrchir y casgliadau hyn yng nghanfyddiadau ein harolygon eraill sydd, gyda'i gilydd, yn dangos bod gan drefniadau strategol a threfniadau cynllunio awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau'r trydydd sector wendidau yn aml.

## Mae awdurdodau lleol sy’n perfformio’n well yn deall eu gwaith gyda’r trydydd sector ac yn ei adolygu’n rheolaidd er mwyn symleiddio a gwella eu blaenoriaethau ariannu strategol

1.13 Mae tri o’r chwe awdurdod lleol lle y gwnaethom ein gwaith maes wedi cynnal adolygiadau cynhwysfawr o’r modd y maent yn ariannu’r trydydd sector yn ystod y pedair blynedd diwethaf, gan ganolbwyntio’n bennaf ar nodi lefel gyffredinol y gwariant ar y trydydd sector yn gywir. O ganlyniad i’r adolygiadau hyn, canfu rhai awdurdodau lleol fod adrannau a gwasanaethau gwahanol yn yr awdurdod lleol yn ariannu’r un sefydliad yn y trydydd sector i ddarparu gwasanaethau gweddol debyg. Drwy gynnal yr adolygiadau hyn, mae’r tri awdurdod lleol o’r farn bod ganddynt ddealltwriaeth well o’r ystod o weithgarwch a ariennir ganddynt drwy’r trydydd sector a’u bod mewn gwell sefyllfa, felly, i ddatblygu dull gweithredu mwy strategol ar gyfer eu gwaith gyda’r trydydd sector yn y dyfodol. Er enghraifft, nododd Cyngor Sir Caerfyrddin yn ei adolygiad ehangach o’r trydydd sector fod mwy o sefydliadau yn nodi eu bod yn darparu gwasanaethau cyngor a gwybodaeth nag yr oedd yr awdurdod yn ymwybodol ohonynt – Ffigur 5.

**Ffigur 5 – Cyngor Sir Caerfyrddin – cydgysylltu prosesau ariannu’r trydydd sector**

Dechreuodd adolygiad Cyngor Sir Caerfyrddin yn 2013 mewn ymateb i gais i nodi gwariant yr awdurdod lleol ar y trydydd sector. Bryd hynny, roedd gan yr awdurdod lleol rywfaint o dystiolaeth anecdotaidd nad oedd ei wariant ar y trydydd sector yn gydgysylltiedig. Ceisiodd yr awdurdod lleol feithrin dealltwriaeth glir o’i wariant blynyddol ac asesu i ba raddau roedd y gwariant hwnnw yn cyd-fynd â blaenoriaethau cynllun integredig sengl yr awdurdod lleol. Nod yr awdurdod lleol oedd sicrhau y câi dulliau corfforaethol o ariannu’r trydydd sector yn y dyfodol eu cydgysylltu’n fwy effeithiol er mwyn sicrhau y byddai gostyngiadau mewn cyllid i’r trydydd sector yn cael cyn lleied o effaith â phosibl ar drigolion. Nododd yr adolygiad hefyd achos o gyllid dyblygedig o fewn yr awdurdod lleol a oedd wedi’i gytuno’n flaenorol heb unrhyw oruchwyliaeth ganolog.

Ceisiodd yr awdurdod lleol ymgysylltu â phob sefydliad yn y trydydd sector a oedd yn cael arian a chynhaliodd gynhadledd fawr er mwyn ystyried y mater. Chwaraeodd prif weithredwr ac arweinydd yr awdurdod lleol rôl bwysig yn arwain y broses. Gofynnodd yr awdurdod lleol am wybodaeth gan y sefydliadau yn y trydydd sector yr oedd yn eu hariannu a’i adrannau ei hun er mwyn deall cyfanswm cwantwm y gwariant.

Ar adeg ein gwaith maes, roedd yr awdurdod lleol newydd gwblhau ei adolygiad ac roedd yn datblygu’r iteriad nesaf o’i ddull o weithio gyda’r trydydd sector a’i ariannu. Cydnabu’r awdurdod lleol fod yr adolygiad wedi cymryd mwy o amser na’r disgwyl a bod canfyddiadau’r adolygiad wedi darparu sail wybodaeth gadarn iawn er mwyn iddo ddatblygu ei ddull gweithredu ymhellach. Gan fod cyllid i’r trydydd sector wedi’i ddatgrynhoi i adrannau yn flaenorol nid oedd gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth glir o’i wariant cyffredinol ar y trydydd sector.

1.14 Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n agos gyda sector gwirfoddol a chymunedol Castell-nedd Port Talbot er mwyn adolygu ei drefniadau ar gyfer dyfarnu arian grant a nododd fod nifer o adrannau yn defnyddio eu trefniadau eu hunain ar gyfer rhoi arian grant ac nad oedd gan yr awdurdod lleol drosolwg corfforaethol o'r gweithgarwch hwnnw. Yn dilyn yr adolygiad, lluniodd y sector gwirfoddol a chymunedol **Gynllun Arian Grant** ar y cyd, a oedd yn cyd-fynd â **Chynllun y Trydydd Sector** Llywodraeth Cymru. Mae goruchwyliaeth y rheolwyr dros gyllid y trydydd sector bellach yn dod o fewn un adran gorfforaethol sydd erbyn hyn yn goruchwylio'r holl arian grant drwy un broses gwneud cais sy'n cwmpasu'r awdurdod lleol cyfan. Mae'r broses honno yn golygu ei bod yn haws cysoni trefniadau ariannu er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r awdurdod lleol. Mae'r broses newydd ar gyfer rhoi arian grant i'r trydydd sector yn haws i'w gweinyddu ac yn galluogi'r awdurdod lleol i ganolbwyntio ac alinio gwaith sefydliadau yn y trydydd sector ar gyflawni blaenoriaethau strategol yr awdurdod. Mae Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot hefyd yn cyfrannu at yr adolygiadau rheolaidd amserlenedig o'r cynllun er mwyn cynnal y dull gweithredu ar y cyd.

1.15 Yn Sir y Fflint, adolygodd yr awdurdod lleol y ffordd roedd ei gymorth i ddioddefwyr cam-drin yn y cartref yn cael ei ddarparu. Ar ddechrau'r adolygiad, roedd yr awdurdod lleol yn ariannu dau ddarparwr yn y trydydd sector mewn dau leoliad ar wahân. Roedd yr awdurdod lleol yn gostwng y cyllid roedd yn ei roi i'r maes gwaith hwn a chynigiodd y dylai'r ddau sefydliad yn y trydydd sector gydweithio i ddarparu'r gwasanaeth yn y dyfodol, gan reoli'r gostyngiad ond gan gynnal y ddarpariaeth. Mae'r gwasanaeth bellach yn cael ei ddarparu ar y cyd gan y ddau sefydliad, er am lai o gost nag o'r blaen, ond gyda'r un lefel o wasanaeth i'r cyhoedd.

1.16 Fodd bynnag, nodwyd gennym nad yw'r tri awdurdod lleol arall lle y buom yn gwneud ein gwaith maes wedi mapio nac adolygu'r holl arian y maent yn ei roi i'r trydydd sector ar gyfer pob gwasanaeth eto, er eu bod yn tueddu i ddeall darpariaeth y trydydd sector ym maes gofal cymdeithasol yn well nag adrannau eraill yr awdurdod. Er nad yw awdurdodau wedi cael trosolwg strategol o waith a threfniadau ariannu yn y trydydd sector, yn aml gall rhyngweithio rhwng yr awdurdod lleol a'r trydydd sector fod yn dameidiog ac yn llai ffurfiol, gydag arferion gwaith yn cael eu llywio gan adrannau, gwasanaethau a swyddogion unigol. Oherwydd gwaith goruchwylio a chydgysylltu gwael, mae awdurdodau lleol yn colli cyfleoedd i nodi arbedion cost drwy resymoli gorbenion rheolwyr.

1.17 Gall diffyg goruchwyliaeth gorfforaethol hefyd arwain at drefniadau ariannu amrywiol a phenderfyniadau anghyson a all ddylanwadu ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau yn y trydydd sector. Mae adrannau unigol awdurdodau lleol yn aml yn gweithio'n annibynnol ar ei gilydd, yn pennu canlyniadau gwahanol ac yn defnyddio dulliau gwahanol o gaffael a rhoi arian grant i'r trydydd sector gyda threfniadau rheoli perfformiad gwahanol iawn. Er enghraifft, nodwyd gennym fod un awdurdod lleol wedi ariannu nifer o sefydliadau y mae eu cylchoedd gorchwyl yn gorgyffwrdd i ddarparu gwasanaethau cyngor a gwybodaeth gan adrannau gwahanol awdurdodau lleol. Roedd ffi reoli i'w thalu am sefydlu a

gweinyddu pob contract y gellid bod wedi'i lleihau neu ei hosgoi pe bai dull ariannu integredig wedi'i fabwysiadu. Gallai dull ariannu integredig fel y'i mabwysiadwyd gan awdurdodau lleol eraill leihau'r baich ar sefydliadau yn y trydydd sector drwy symleiddio'r gofynion o ran gweinyddu, talu, perfformiad a monitro.

1.18 Nododd cynghorau gwirfoddol sirol, lle nad oes gan awdurdod lleol strategaeth gyffredinol na fframwaith corfforaethol, y gall cyfathrebu â'r trydydd sector yn aml fod yn weithgarwch anghydgysylltiedig ad hoc sydd wedi'i gynllunio yn erbyn safonau adrannol gwahanol iawn. Nododd un fod adrannau awdurdodau lleol yn gwneud '... things differently. A recent Communities First process…..was relatively simple, but with a quick turnaround for applicants to submit. Other examples such as Families First tenders, are often excessive and prohibitive.' Nododd eraill fod 'ad hoc arrangements across different departments leads to an inconsistent approach - ie differing financial thresholds for SLAs, contracts, Tendering' a dywedodd un arall '[since] there is no apparent coordinated approach this sometimes impacts on perception of equality and transparency'.

1.19 Yn ystod y cyfweliadau a gynhaliwyd fel rhan o'n gwaith maes ac mewn ymatebion i'n cais am dystiolaeth, nododd sefydliadau yn y trydydd sector yn aml nad yw swyddogion nac aelodau etholedig yn deall yn iawn sut y gall y trydydd sector helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu hamcanion corfforaethol a gwella gwasanaethau i'r cyhoedd. Dywedodd nifer o sefydliadau yn y trydydd sector wrthym nad oes gan awdurdodau lleol wybodaeth fanwl yn aml i ddeall y cyfleoedd sydd ar gael i ychwanegu gwerth at eu buddsoddiad eu hunain drwy gysylltu eu prosesau neilltuo adnoddau â rhaglenni gwaith eraill a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny.

1.20 Er enghraifft, nododd sefydliadau yn y trydydd sector fod cyllid gan awdurdodau lleol weithiau yn rhagofyniad i sicrhau bod ceisiadau sefydliadau am arian a ddarperir gan eraill yn llwyddiannus; er enghraifft, cronfeydd strwythurol a chronfeydd buddsoddi Ewropeaidd[13], arian a ddarperir gan gyrff eraill yn y sector cyhoeddus a rhaglenni cenedlaethol megis y Gronfa Loteri Fawr[14]. Mae'r rhain hefyd yn gronfeydd na all awdurdodau lleol fanteisio arnynt na'u defnyddio ac, felly, maent yn cynnig cyfleoedd i ychwanegu gwerth at fuddsoddiad yr awdurdodau lleol eu hunain yn y trydydd sector. Fel y nododd ymatebwyr i'n cais am dystiolaeth, 'the ripple effect of the third sector is massive (but) the local authorities don't understand this' ac un arall 'if the Local Authority does not have the faith in a project that is being delivered within the locality what hope do we have of convincing others to also come in'.

13 Arian a ddarperir gan Gomisiwn yr UE ac a weinyddir gan Lywodraeth Cymru y gellir ei ddefnyddio i helpu pobl i gael gwaith a hyfforddiant, hybu cyflogaeth ymhlith ieuenctid, cefnogi ymchwil ac arloesedd, gwella cystadleurwydd busnesau a hyrwyddo ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni a chysylltedd a gweithgarwch datblygu trefol.

14 Gwefan Cronfa Loteri Fawr y DU, Ymddiriedolaeth Ymyrraeth Gynnar y Trydydd Sector.

## Mae gan bob awdurdod lleol gytundebau â'r trydydd sector ond nid ydynt bob amser yn gyfredol nac yn effeithiol

1.21 Mae'r cytundeb lleol â'r trydydd sector yn elfen bwysig wrth hyrwyddo a datblygu gwaith y trydydd sector. Mae cytundebau yn darparu fframwaith clir ar gyfer gwaith partneriaeth lleol rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Bydd cytundeb da yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r partneriaid yn glir, wedi'i deilwra i anghenion yr ardal, yr arian sydd ar gael ac amrywiaeth darpariaeth y trydydd sector yn lleol. Bydd cytundeb effeithiol hefyd yn nodi'r egwyddorion sy'n sail i'r ffordd y bydd y partneriaid yn cydweithio ac mae gan lofnodwyr gyfrifoldeb i weithio yn unol â'i egwyddorion a'i ymrwymiadau.

1.22 Er mwyn cydnabod rôl bwysig y trydydd sector o ran helpu cyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau a chyflawni amcanion sy'n flaenoriaeth genedlaethol, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y **Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector** (y Cod)[15]. Mae'r Cod yn nodi'r egwyddorion allweddol sy'n sail i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r trydydd sector ac yn ei ariannu. Mae'n rhaid i holl adrannau Llywodraeth Cymru gydymffurfio â'r Cod ac mae'n ofynnol i gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru gydymffurfio â'u cytundebau ariannu. Mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus arall (gan gynnwys cyrff y GIG ac awdurdodau lleol) gydymffurfio â'r Cod mewn achosion lle mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu arian wedi'i neilltuo iddynt. At hynny, disgwylir i awdurdodau lleol ddilyn egwyddorion y Cod a'u hadlewyrchu yn eu cytundebau lleol â'r trydydd sector.

1.23 O ystyried yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan gyrff cyhoeddus fel y'i nodir yn y Cod, ac yn benodol awdurdodau lleol, o ran y ffordd y maent yn ariannu gwasanaethau'r trydydd sector, arolygwyd y cynghorau gwirfoddol sirol i weld sut mae'r Cod yn cael ei ddefnyddio a sut mae awdurdodau lleol yn trin arian wedi'i neilltuo. O'r naw cyngor gwirfoddol sirol a nododd fod gan eu hawdurdod lleol strategaeth ar gyfer gwasanaethau'r trydydd sector, roedd pump o'r farn bod y Cod yn ychwanegu gwerth at y broses o gaffael gwasanaethau'r trydydd sector gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, dim ond tri o'r naw a deimlai fod strategaeth eu hawdurdod lleol yn gyson â Chod Llywodraeth Cymru – h.y. mae'r strategaeth yn cwmpasu pob gwasanaeth ac yn dylanwadu ar bob penderfyniad gan yr awdurdod lleol yn ei waith gyda'r trydydd sector.

1.24 Hefyd, arolygwyd yr holl gytundebau o'r awdurdodau lleol lle y buom yn gwneud ein gwaith maes. Er bod rhai cytundebau yn adlewyrchu amgylchiadau a chydberthnasau lleol yn glir, ymddengys fod eraill yn eithaf cyffredinol a'u bod yn cyd-fynd yn agos â Chod Llywodraeth Cymru. Roedd ymdeimlad cryfach o berchenogaeth ymhlith sefydliadau yn y trydydd sector lle roedd cytundebau wedi cael eu hadolygu a'u haddasu er mwyn adlewyrchu amgylchiadau lleol a sefyllfaoedd ariannol a oedd yn newid. Ystyriwyd bod y newidiadau hynny yn annog gwelliannau o ran y gydberthynas rhwng yr awdurdod lleol a'r trydydd sector lleol. Er enghraifft, yn ddiweddar adolygodd a diweddarodd Blaenau Gwent ei gytundeb (**Cynllun y Trydydd Sector**) ar ddechrau 2016 gan ei ymestyn i gynnwys cyrff eraill yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys y bwrdd iechyd lleol,

15 **Mae'r Cod** wedi'i ddiweddaru ar sawl achlysur, yn fwyaf diweddar ym mis Ionawr 2014.

Heddlu Gwent a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent. Cydnabu'r awdurdod lleol mai megis dechrau oedd y broses o roi'r cynllun diwygiedig ar waith ond roedd yn disgwyl iddo ddarparu fframwaith strategol cliriach ar gyfer y ffordd y mae cyrff cyhoeddus â chyllidebau gwahanol yn gweithio gyda'r trydydd sector yn ardal awdurdod lleol y fwrdeistref sirol ac yn ei ariannu.

1.25 Fodd bynnag, nodwyd gennym, er bod gan awdurdodau lleol gytundebau ffurfiol â'r trydydd sector yn eu hardal, nad ydynt bob amser yn gyfredol nac ychwaith yn adlewyrchu'r cytundebau partneriaeth presennol. Nodwyd gennym fod nifer o gytundebau wedi bodoli ers dros 10 mlynedd heb gael eu diwygio na'u diweddaru ac nad ydynt yn aml yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol presennol na'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cyflunio, eu darparu a'u hariannu gan awdurdodau lleol nac yn adlewyrchu'r amrywiaeth o bartneriaid sy'n darparu gwasanaethau ar ran yr awdurdod lleol yn gywir. Nododd un cyngor gwirfoddol sirol, 'there is no third sector compact, nor a Funding Code'.

## Nid yw gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn gyson effeithiol i ysgogi gwelliannau

1.26 Er mwyn deall sut y gall y trydydd sector wneud y cyfraniad gorau a mwyaf costeffeithiol at fynd i'r afael â blaenoriaethau awdurdodau lleol, mae'n hanfodol bod gan awdurdodau lleol wybodaeth lawn a manwl am y gwasanaethau a ddarperir gan y trydydd sector ar hyn o bryd. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ymgysylltiad a deialog effeithiol a pharhaus â'r trydydd sector. Gall gwaith ymgysylltu ac ymgynghori gwael arwain at awdurdodau lleol yn cynllunio gwasanaethau nad ydynt yn adlewyrchu blaenoriaethau, anghenion na galw neu at fanylebau gwasanaethau wedi'u llunio'n wael nad ydynt yn ddarbodus, yn effeithlon nac yn effeithiol. Fodd bynnag, gan fod y trydydd sector yn amrywio o sefydliadau cymunedol, lleol bach i elusennau mawr sy'n cwmpasu'r DU gyfan, gall fod yn anodd i awdurdodau lleol ymgysylltu â phob rhanddeiliad yn gyson ac yn effeithiol.

1.27 Mae cyfarfodydd partneriaeth rheolaidd rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn ffordd bwysig o oruchwylio gweithgarwch ac yn sicrhau bod yr awdurdod lleol a'r sefydliadau yn y trydydd sector yn gweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau gwelliannau. Yn aml mae'r rhain ar ffurf cyfarfodydd cydbwyllgorau cyswllt sy'n cynnwys aelodau etholedig a swyddogion awdurdodau lleol. Canfuwyd mwy o dystiolaeth o ymgysylltu cadarnhaol rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector lle mae gan yr awdurdod lleol ddull corfforaethol o ymgysylltu â'r trydydd sector a gweithio gydag ef (sydd wedi'i ategu fel arfer gan gytundeb cadarn a chyfredol). Er enghraifft, gwaith Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a grynhoir yn Ffigur 6.

**Ffigur 6 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot – gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector**

Yng Nghastell-nedd Port Talbot, bu Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol yn ystyried pa mor bwysig ydyw bod y trydydd sector yn hysbysu'r awdurdod lleol am y problemau y mae pobl leol yn eu hwynebu. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod ei fod yn wynebu setliadau cyllidebol sy'n lleihau gan Lywodraeth Cymru a bod angen ymateb i gymunedau a gweithio gyda hwy mewn ffyrdd mwy arloesol. Mae'n amlwg bod yr awdurdod lleol wedi cydnabod yr angen i ddeall y gwasanaethau a ddarperir ganddo a'r hyn y gall y trydydd sector ei ddarparu. Nododd y cyngor gwirfoddol sirol lleol y gallai hefyd chwarae rôl fwy effeithiol ei hun o ran gwella effeithiolrwydd Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol.

1.28 Yn yr un modd, mae'r gydberthynas rhwng Cyngor Sir y Fflint a sefydliadau yn y trydydd sector yn seiliedig ar ddeialog agored ac effeithiol. O 2015-16 mae Cyngor Sir y Fflint yn lleihau'r arian craidd y mae'n ei roi i sefydliadau yn y trydydd sector ond oherwydd ei weithgarwch ymgysylltu effeithiol â phartneriaid, nid yw'r gostyngiadau mewn arian wedi'u herio ryw lawer, yn bennaf am fod yr awdurdod lleol wedi rhoi gwybod y bydd y gostyngiadau ar yr un lefel â'r pwysau y mae angen mynd i'r afael â hwy yng ngwasanaethau'r awdurdod lleol ei hun. Roedd y cyngor gwirfoddol sirol lleol o'r farn bod natur agored a thryloyw ei ddeialog â Chyngor Sir y Fflint yn brawf cadarnhaol o'r trefniadau cydweithio ac ariannu effeithiol a ddatblygwyd gan bartneriaid yn Sir y Fflint.

1.29 Serch hynny, roedd nifer o ymatebwyr i'n cais am dystiolaeth o'r farn nad yw'r gydberthynas rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn effeithiol, a gwnaethant gyfeirio'n aml at y gydberthynas fel un anghyfartal sy'n debycach i gydberthynas rhwng rhiant a phlentyn. Lleisiwyd pryderon bod gan yr awdurdod lleol, fel y corff ariannu, fwy o bŵer o fewn y gydberthynas a phe bai sefydliadau yn y trydydd sector yn herio'r awdurdod lleol y gallai hynny gael effaith andwyol ar benderfyniadau ariannu yn y dyfodol. Dim ond 14 o'r 56 o sefydliadau a ymatebodd i'n cais am dystiolaeth a nododd fod y trefniadau presennol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector yn effeithiol neu'n effeithiol iawn o gymharu â 35 a oedd o'r farn nad oedd y trefniadau presennol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol iawn. Dywedodd un ymatebydd nad yw'r rhan fwyaf o gydberthnasau a elwir yn bartneriaethau yn bartneriaethau mewn gwirionedd. Roedd hefyd o'r farn nad oes unrhyw waith cynllunio strategol effeithiol yn cael ei wneud mewn perthynas ag ariannu'r trydydd sector.

1.30 Nid oedd llawer o'r sefydliadau yn y trydydd sector a ymatebodd i'n cais am dystiolaeth o'r farn bod gan awdurdodau lleol drefniadau partneriaeth effeithiol ar gyfer gweithio gyda'r trydydd sector. Nododd un darparwr y gellid gwneud mwy o ddefnydd o'r trydydd sector ac nad oedd digon o werth yn cael ei roi ar yr hyn y gall y trydydd sector ei wneud a nododd ymatebwr arall, er y sonnir am bartneriaeth yn

aml, fod y realiti yn wahanol iawn. Yn ôl ein profiad nid oes gan y trydydd sector fawr ddim dylanwad ar brosesau gwneud penderfyniadau ac mae sefydliadau yn y trydydd sector yn aml yn teimlo bod eu cyfranogiad yn symbolaidd. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod awdurdodau lleol yn rhoi mwy o bwyslais ar sefydliadau yn y trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau am gost is yn hytrach na gwerthfawrogi'r gwerth ychwanegol y gall y trydydd sector ei gynnig, tra bod eraill wedi lleisio pryderon y bydd awdurdodau lleol yn ceisio lleihau'r arian y maent yn ei roi i'r trydydd sector yn hytrach na gorfod wynebu torri gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol.

1.31 Lle nad yw awdurdodau lleol wedi mabwysiadu un strategaeth ar gyfer gweithio gyda'r trydydd sector eto, nodwyd gennym fod gwaith partneriaeth yn aml yn amrywio a'i fod yn dibynnu ar ymagwedd adrannau unigol gwasanaethau awdurdodau lleol. Mae gan lawer o wasanaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol gydberthnasau hirsefydlog a mwy ffurfiol â'r trydydd sector, sy'n tynnu sylw at y rôl y mae sefydliadau yn y trydydd sector yn ei chwarae o ran darparu gwasanaethau. Mae trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector ym maes gofal cymdeithasol yn aml wedi'u llunio ar sail dogfennau strategol Llywodraeth Cymru – er enghraifft, **Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol**[16] – ac wedi'u hategu gan ddatganiadau sefyllfa'r farchnad gwasanaethau cymdeithasol – Ffigur 7. Mae'r trefniadau hyn wedi helpu partneriaid – awdurdodau lleol a chyrff yn y trydydd sector – i barhau i ddatblygu ac atgyfnerthu'r trefniadau ariannu strategol ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol y trydydd sector.

1.32 Er gwaethaf y rôl gynyddol y mae'r trydydd sector yn ei chwarae o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, mae'r gydberthynas rhwng llywodraeth leol a'r sector wedi wynebu nifer o broblemau. Nododd un ymatebydd i'n cais am dystiolaeth nad ymddengys fod trefniadau ariannu yn gydgysylltiedig. Yn aml gall un gwasanaeth gael ei ariannu o sawl cronfa wahanol. Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn cynnwys y trydydd sector fel partner strategol ac mae'r cyfraniad y mae cyrff gwirfoddol yn ei wneud at strategaethau, blaenoriaethau a threfniadau cydweithio i wella gwasanaethau yn amrywio.

1.33 Gan fod gwaith partneriaeth â'r sector cyhoeddus yn cynyddu drwy fyrddau gwasanaethau cyhoeddus[17], mae'n bwysig bod pob partner yn cael ei gynrychioli'n effeithiol er mwyn sicrhau'r ddealltwriaeth ehangach o'r modd y caiff gwasanaethau'r trydydd sector eu hariannu. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd, mae awdurdodau lleol yn nodi nad ydynt bob amser wedi llwyddo i gynnwys y bwrdd iechyd lleol mewn trefniadau cydgyllido a bod angen mynd i'r afael â hyn o gofio lefel y cyllid y mae byrddau iechyd hefyd yn ei roi i'r trydydd sector. Mae gwaith cydgysylltu gwael o ran dulliau ariannu rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn gosod mwy o faich ar yr awdurdod lleol a chyrff yn y trydydd sector ac mae'n llai effeithlon na dull gweithredu lleol cydgysylltiedig sy'n cwmpasu holl gyrff y sector cyhoeddus gan gynnwys awdurdodau lleol, y sector iechyd a'r heddlu er enghraifft.

16 **Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol** yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Er mater i awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am waith cynllunio strategol ydyw yn bennaf, cydnabyddir bod rôl a chyfraniad y trydydd sector yn hanfodol i ddiwallu anghenion o ran gofal cymdeithasol.

17 Mae **Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus statudol ym mhob ardal awdurdod lleol. Diben byrddau gwasanaethau cyhoeddus yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd drwy atgyfnerthu trefniadau cydweithio ym mhob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

**Ffigur 7 – Datganiadau gwasanaethau cymdeithasol o sefyllfa'r farchnad**

Mae'r datganiad o sefyllfa'r farchnad yn rhan bwysig o broses ariannu strategol. Mae'n ddatganiad ynghylch pa fath o farchnad gofal a chymorth awdurdod lleol sydd angen ei chreu ar gyfer y dyfodol ac yn ffurfio rhan o'r ddeialog honno â phartneriaid, gan gynnwys darparwyr a phobl leol fel y gallant gynllunio i ddarparu'r gorau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau. Dylai'r datganiad o sefyllfa'r farchnad nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn gweithio gyda'r sefydliadau sy'n cynnig gwasanaethau, gofal a chymorth i unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Mae awdurdodau lleol yn cyhoeddi'r dogfennau hyn er mwyn galluogi pob darpar ddarparwr i ddeall pa wasanaethau y bydd yr awdurdod lleol yn ystyried eu darparu yn y dyfodol. Mae pob un o'r awdurdodau lleol yn nodi'n glir eu bod yn disgwyl i'r trydydd sector allu cystadlu i ddarparu'r gwasanaethau hynny. Mae'r datganiadau hyn o sefyllfa'r farchnad yn galluogi'r trydydd sector i ddeall dull gweithredu strategol yr awdurdodau lleol, er bod hynny ym maes gwasanaethau cymdeithasol yn unig, a sut y gall y sector gyfrannu at y gwaith o ddarparu gwasanaethau. Gwerthfawrogir yr eglurder hwn gan y trydydd sector gan y gall helpu i ddatblygu gwasanaethau sydd eu hangen ar yr awdurdod lleol ond dylai'r rhain fod wedi'u hategu gan ddull clir o ariannu'r gwasanaethau a nodwyd. Nodwyd gennym, ym maes gwasanaethau cymdeithasol, fod y canlynol yn cyfrannu at y gwaith partneriaeth llwyddiannus rhwng yr awdurdod lleol a sefydliadau yn y trydydd sector:

- proses ariannu glir;
- ffocws ar anghenion yr awdurdod lleol ar gyfer y gwasanaeth sy'n cael ei ariannu;
- amcanion clir ar gyfer y contract;
- systemau adrodd rheolaidd;
- staff a oedd yn meddu ar yr arbenigedd i gomisiynu a rheoli prosiectau;
- sefydliadau a oedd yn gallu llunio dogfennau gwneud cais a defnyddio'r broses gaffael; a
- strategaeth ymadael glir.

Roedd y rhai a gafodd eu cyfweld o'r farn y bydd datblygu asesiadau llesiant o dan **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014** yn helpu i feithrin dealltwriaeth awdurdodau lleol o anghenion eu poblogaethau lleol ymhellach.

## Mae cynghorau gwirfoddol sirol yn chwarae rôl allweddol o ran canolbwyntio a chydgysylltu'r trydydd sector ond nid yw eu gwaith yn cael ei werthfawrogi na'i gydnabod bob amser ac mae gwendidau mewn trefniadau presennol yn tanseilio eu heffeithiolrwydd

1.34 Ystyrir yn aml mai cynghorau gwirfoddol sirol yw 'llais y trydydd sector' mewn ardal awdurdod lleol, ac maent yn aml yn cynrychioli'r trydydd sector ar bartneriaethau strategol. Mae cynghorau gwirfoddol sirol yn gweithredu fel cyfrwng i wybodaeth am bolisi, gan gefnogi rhwydweithiau mewn perthynas â themâu a meysydd diddordeb allweddol, er mwyn sicrhau bod llunwyr polisi a gwneuthurwyr penderfyniadau yn deall anghenion sefydliadau yn y trydydd sector mewn maes penodol. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod cynghorau gwirfoddol sirol yn cynrychioli eu haelod-sefydliadau a'u gwirfoddolwr er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau o ran gwasanaethau craidd, ac mae Llywodraeth Cymru yn ariannu cynghorau gwirfoddol sirol i gyflawni'r rôl hon.

1.35 Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i gynghorau gwirfoddol sirol lleol gydgysylltu a chefnogi gweithgarwch y trydydd sector. Gall sefydliadau lleol yn y trydydd sector ymaelodi â'u cyngor gwirfoddol sirol lleol. Ar hyn o bryd, mae'r cynghorau gwirfoddol sirol yn adlewyrchu ffiniau awdurdodau lleol ac eithrio GAVO sy'n cwmpasu Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy a Chasnewydd.

1.36 Nodwyd gennym, lle mae cydberthnasau rhwng awdurdodau lleol a'u cyngor gwirfoddol sirol yn effeithiol, fod cynghorau gwirfoddol sirol yn gallu hyrwyddo a helpu sefydliadau yn y trydydd sector i gael arian a gwaith prosiect. Gwelsom enghreifftiau lle roedd awdurdodau lleol yn defnyddio eu cyngor gwirfoddol sirol i noddi sefydliadau addas yn y trydydd sector i gyflawni prosiectau penodol yn lleol. Yn y sefyllfaoedd hyn, roedd y cyngor gwirfoddol sirol yn gweithredu fel brocer ac yn rhoi cyngor a chymorth er mwyn helpu ei aelodau i gael arian yn ogystal â meithrin gallu a sgiliau sefydliadau yn y trydydd sector. Er enghraifft, mae GAVO a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi datblygu proses glir i feithrin gallu'r trydydd sector fel y dangosir yn Ffigur 8.

1.37 Mewn rhai ardaloedd, mae awdurdodau lleol yn ystyried mai cynghorau gwirfoddol sirol yw unig gynrychiolydd y trydydd sector ac, felly, fe'u gwahoddir i gynrychioli'r trydydd sector ar weithgorau a phwyllgorau strategol, heb ystyried eu harbenigedd na'u gwybodaeth am y pwnc. Fodd bynnag, nododd ymatebwyr i'n cais am dystiolaeth fod awdurdodau lleol yn canolbwyntio'n bennaf ar gynghorau gwirfoddol sirol lleol fel y prif gyfrwng i mewn i'r sector ond nad yw cynghorau gwirfoddol sirol bob amser yn cydgysylltu nac yn cyfathrebu â'u haelod-sefydliadau nac yn cynrychioli eu barn yn effeithiol.

**Ffigur 8 – GAVO – meithrin gallu'r trydydd sector i gystadlu mewn ymarferion caffael**

Mae Tîm Polisi Canolog Caerffili wedi gweithio gyda chydweithwyr yn y gwasanaeth caffael a'r cyngor gwirfoddol sirol lleol (GAVO) er mwyn meithrin gallu'r trydydd sector. Mae'r Gwasanaeth Caffael yn rhoi arweiniad a chymorth i sefydliadau yn y trydydd sector yn unol â Menter Drysau Agored Llywodraeth Cymru: Caffael a'r Trydydd Sector. Nod yr awdurdod lleol yw sicrhau bod mwy o sefydliadau lleol yn llwyddo i ennill contractau gyda'r awdurdod lleol.

Yn 2014-15 parhaodd y gwaith hwn gyda gwaith agos rhwng y gwasanaeth caffael a GAVO ar brosesau caffael yn y trydydd sector. Mae Tîm Caffael yr awdurdod lleol yn cynnal clinigau caffael bob pythefnos lle y gall sefydliadau yn y trydydd sector gael cyngor a chanllawiau ar y broses dendro a defnyddio system e-gaffael yr awdurdod lleol. Mae Swyddog Cydberthnasau â Chyflenwyr penodol o fewn y Tîm Caffael sy'n rhoi cymorth i sefydliadau. Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi llunio cynlluniau caffael i gyfarwyddiaethau sydd ar gael ar wefan yr awdurdod.

Ochr yn ochr â'r gwaith rhagweithiol uchod gyda'r trydydd sector, ar y cyd â GAVO a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, cynhaliodd yr awdurdod lleol saith seminar cryno i sefydliadau yn y trydydd sector yn ystod hydref 2014, er mwyn eu helpu i ddatblygu a pharhau'n gynaliadwy, a'u paratoi ar gyfer cyfleoedd caffael ac ariannu yn y dyfodol. Roedd y sesiynau hynny yn cynnwys y meysydd canlynol:

- beth yw mentrau cymdeithasol?
- cynlluniau busnes
- rheoli risg
- strwythurau cyfreithiol
- materion TAW
- y gwahaniaeth rhwng grant/contract/cytundeb lefel gwasanaeth

Yn dilyn y sesiynau hynny, cynhaliodd yr awdurdod lleol, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gynhadledd a ddaeth â sefydliadau yn y trydydd sector a chomisiynwyr gwasanaethau at ei gilydd. Rhoddodd y digwyddiad gyfle i'r trydydd sector glywed am y prosesau caffael a chyfarfod â sefydliadau a fyddai'n cynnal ymarferion caffael. Ar y pryd, roedd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ariannu Swyddog Cyswllt Datblygu i helpu'r trydydd sector i gael arian er mwyn darparu gwasanaethau drwy eu Bwrdd Comisiynu Strategol.

1.38 Er enghraifft, lleisiodd nifer o sefydliadau yn y trydydd sector bryderon nad yw eu cyngor gwirfoddol sirol lleol yn ymgynghori â hwy'n gyson ac, felly, roeddent yn amau a ellid ystyried mai'r cyngor gwirfoddol sirol yw llais dilys y trydydd sector. Gall y diffyg cyfathrebu hwn arwain at ddrwgdybiaeth o fewn y trydydd sector ac roedd rhai sefydliadau yn amau a ellid ystyried bod cynghorau gwirfoddol sirol yn gallu cynrychioli'r sector cyfan yn effeithiol os nad oes unrhyw ymgysylltu effeithiol a pharhaus. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn ceisio sicrwydd, waeth pa fforymau a ddefnyddiant i ymgynghori â'r trydydd sector, fod y broses mor gynrychioliadol â phosibl o'r sector ac yn hwyluso ystod ehangach o gynrychiolwyr o'r trydydd sector ar gyfer gweithgorau a phwyllgorau.

1.39 At hynny, gwelsom dystiolaeth bod rhai cynghorau gwirfoddol sirol yn cystadlu â'u haelod-sefydliadau am arian prosiect a gwirfoddolwyr. Sefydlodd un cyngor gwirfoddol sirol yng Ngogledd Cymru wasanaeth cyfeillio a ariannwyd gan y Loteri Genedlaethol yr oedd y Groes Goch[18] eisoes yn cael arian i'w ddarparu yn yr un ardal awdurdod lleol. Roedd hyn yn golygu bod y ddau sefydliad yn darparu'r un gwasanaeth ac yn 'cystadlu' am wirfoddolwyr i redeg y gwasanaeth yn ogystal â defnyddwyr gwasanaethau a fyddai'n cael budd o'r gwaith. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o gyllid y trydydd sector, mae angen i awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol egluro eu disgwyliadau o ran y modd y caiff arian ei ddefnyddio i gefnogi'r trydydd sector yn lleol er mwyn osgoi gweithgarwch dyblygedig lle y bo'n bosibl a sicrhau bod buddsoddiad yn cael yr effaith fwyaf bosibl ac yn sicrhau'r manteision mwyaf posibl.

1.40 Hefyd, cawsom wybodaeth bod rhai cynghorau gwirfoddol sirol yn rhan o baneli gwneud penderfyniadau o fewn awdurdodau lleol ar gyfer arian y maent hefyd wedi gwneud cais amdano. Gall hyn arwain at achos posibl o wrthdaro buddiannau ac mae hyn yn fater y dylid ei reoli. Er na all polisïau na gweithdrefnau ragweld pob sefyllfa, ac er y bydd difrifoldeb rhai achosion o wrthdaro buddiannau yn fater o raddau, mae'n rhaid i gynghorau gwirfoddol sirol nodi a datgelu achosion posibl o wrthdaro yn amserol ac yn effeithiol.

1.41 Y cwestiwn allweddol y mae'n rhaid ei ateb bob amser yw a allai rhyw fuddiant neu ddyletswydd arall sydd gan gyngor gwirfoddol sirol effeithio ar ei ddyletswyddau neu ei gyfrifoldebau i'r awdurdod lleol. Lleisiodd un ymatebydd i'n cais am dystiolaeth ei bryderon ynghylch y ffaith bod '... our local county voluntary council making decisions around allocation of funding in the same room as authorities and health board. They are effectively getting funding, they say it's because they are meeting an unmet need, but are not always working with third sector organisations to ready themselves to be able to bid and they do not always share things they have learned. Relationships have been pre-forged between LA and CVC which gives them the edge. This is clear conflict of interest.' Dylai cynghorau gwirfoddol sirol fod yn glir ynghylch eu rôl ar baneli o'r fath, ac mae angen i drefniadau awdurdodau lleol ar gyfer ariannu gwasanaethau drwy systemau o'r fath sicrhau y dilynir y broses briodol a bod penderfyniadau yn dryloyw.

18 Mae'r Groes Goch Brydeinig yn elusen sy'n helpu pobl mewn argyfwng drwy ei rhwydwaith gwirfoddol, sy'n helpu pobl sy'n agored i niwed yn y DU a thramor i baratoi ar gyfer argyfyngau yn eu cymunedau eu hunain, eu gwrthsefyll a dod drostynt.

1.42 At hynny, mae rhai awdurdodau lleol hefyd wedi ceisio cydgynhyrchu gwasanaethau ar y cyd â darparwr gwasanaethau presennol a darpar ddarparwyr gwasanaethau yn y trydydd sector, yn enwedig cynghorau gwirfoddol sirol. Drwy ddatblygu'r dulliau hyn o weithredu sy'n rhoi gwerth ar wybodaeth arbenigol darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau bydd modd cael gwybodaeth werthfawr er mwyn cynllunio gwasanaethau yn y dyfodol. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod y dulliau cydgynhyrchu hyn wedi'u cyfyngu gan y ffaith bod darparwyr gwasanaethau presennol yn amharod i rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd â darparwyr eraill. Mae tensiwn y mae angen i awdurdodau lleol ei reoli er mwyn iddynt sicrhau eu bod yn cael y budd mwyaf posibl o'u hadnoddau. Mae'n glir bod angen datblygu gweithgarwch ymgysylltu a meithrin ymddiriedaeth rhwng pob partner ac y dylid canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl.

1.43 Mae angen eglurder ynghylch rôl cynghorau gwirfoddol sirol yn amgylchedd y sector cyhoeddus sy'n newid. Mae'r sefyllfa bresennol lle mae rhai cynghorau gwirfoddol sirol yn cefnogi sefydliadau yn y trydydd sector yn ogystal â chystadlu yn eu herbyn yn golygu na all awdurdodau lleol bob amser fod yn glir ynghylch pa mor gynrychioliadol yw cynghorau gwirfoddol sirol o'r trydydd sector. Drwy gyfleu rôl y cyngor gwirfoddol sirol lleol yn fwy pendant, byddai awdurdodau lleol a sefydliadau unigol yn y trydydd sector mewn sefyllfa gliriach i gydweithio i wella canlyniadau i ddinasyddion yng Nghymru. Byddai hefyd yn sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau lleol yn gwbl dryloyw ac y caiff ymddiriedaeth ei hennyn ymhellach ym mhob rhan o'r trydydd sector.

# Rhan 2

# Mae anghysondebau o ran trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer ariannu'r trydydd sector yn golygu ei bod yn anodd dangos gwerth am arian

Colin yn gwirfoddoli i'r prosiet Cynefin sydd hefyd yn cyfrannu at gofnodi cyflyrau Mapiau Arolwg Ordnans, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Un o'r 15 llun uchaf yng Nghystadleuaeth Ffotograffiaeth Aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2016.



2.1 Ar ôl i awdurdodau lleol gymeradwyo eu strategaeth ar gyfer gwasanaethau'r trydydd sector ac ar ôl i'r rhaglen o waith sydd i'w gaffael gael ei nodi a'i chytuno, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddatblygu a nodi eu trefniadau gweinyddu i gaffael gwasanaethau'r trydydd sector. Dylent fod mor syml â phosibl gyda systemau cymeradwyo, rheolaethau a threfniadau monitro a gwerthuso sy'n gymesur â gwerth y gwaith a ariennir. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol benderfynu a ddylid defnyddio grant neu gontract, pennu'r cyfnod a gwmpesir gan y dyfarniad ariannol a phenderfynu pa mor aml y gwneir taliadau ac a gaiff y costau llawn eu hadennill. Dylai prosesau ar gyfer hysbysebu a dyfarnu gwasanaethau hefyd fod yn dryloyw gyda gwybodaeth am y ffordd y gwneir penderfyniadau ac yr adolygir perfformiad wedi'i nodi'n glir, ymlaen llaw a chyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud.

2.2 Felly, mae'n bwysig bod trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer ariannu sefydliadau yn y trydydd sector yn effeithlon ac yn effeithiol, am fod y dewisiadau a wneir gan awdurdodau yn hanfodol i sicrhau gwerth am arian. Os cânt eu cyflawni'n wael, gall prosesau ariannu osod beichiau trwm ar y trydydd sector gyda sefydliadau yn gorfod buddsoddi adnoddau er mwyn cydymffurfio â systemau y mae'r trydydd sector yn aml yn ystyried eu bod yn feichus. Gall trefniadau ariannu gwael hefyd gynyddu'r risg na fydd sefydliadau yn y trydydd sector yn gallu cyflawni'r hyn y maent yn cael eu talu i'w wneud ac, o ganlyniad, arwain at wastraffu arian cyhoeddus neu fethiant gwasanaeth.

2.3 Gan fod trefniadau gweinyddu yn gallu bod yn hollbwysig i lwyddiant y trydydd sector o ran gwneud cais am wasanaethau, eu sicrhau a'u darparu, rydym yn nodi ein dadansoddiad o arferion presennol yn fanylach isod. Mae ein dadansoddiad yn ystyried y canlynol:

- ansawdd a hygyrchedd gwybodaeth awdurdodau lleol am y gwasanaethau sydd eu hangen, y prosesau ar gyfer gwneud cais a'r meini prawf a ddefnyddir i ddyfarnu contractau;
- a oes gan awdurdodau lleol drefniadau da i nodi pryd y dylid cynnal proses gaffael agored neu gaeedig;
- ar ba sail y mae awdurdod lleol yn penderfynu defnyddio contractau neu gymorth grant cyffredinol ar gyfer gwasanaethau'r trydydd sector a ariennir;
- am faint o amser y mae contractau awdurdodau lleol â'r trydydd sector yn para; a'r
- trefniadau ariannu sydd ar waith ac a ydynt yn darparu ar gyfer adennill y costau llawn.

## Nid yw prosesau gwneud cais bob amser wedi'u symleiddio er mwyn helpu sefydliadau yn y trydydd sector i gyfranogi'n llawn

2.4 O fewn awdurdodau lleol, mae'n debygol y bydd llawer o dimau a gwasanaethau gwahanol sy'n ymwneud ag ariannu'r trydydd sector, dyfarnu grantiau a chytuno ar gontractau ar gyfer ystod eang o ddibenion. Er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwneud y defnydd gorau o'r trydydd sector ac yn annog cymaint o sefydliadau â phosibl i gyfranogi, mae angen i awdurdodau lleol roi systemau gwneud cais a systemau gwybodaeth clir a phriodol ar waith. Ar sail ein hadolygiad, rydym o'r farn bod yr awdurdodau lleol gorau yn gweithredu un system gwneud cais sy'n cwmpasu pob gwasanaeth ac adran sy'n comisiynu gwasanaethau o fewn yr awdurdod lleol. Mae systemau corfforaethol yn sicrhau bod sefydliadau yn y trydydd sector ac awdurdodau lleol yn gwybod am y trefniadau ac yn eu deall, a phan gânt eu defnyddio'n gyson gallant symleiddio prosesau gweinyddu a'u gwneud yn llai beichus ar gyfer pob parti – er enghraifft, gwaith Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a nodir yn Ffigur 9.

2.5 Ar sail ein gwaith maes a'n hadolygiadau o ddogfennau, nodwyd gennym fod awdurdodau lleol yn dechrau gwella eu prosesau gwneud cais am arian i'r trydydd sector drwy wneud y canlynol:

- safoni ffurflenni cais o fewn yr awdurdod lleol a defnyddio un broses ar gyfer yr holl arian a ddyfernir i'r trydydd sector;
- cyflwyno prosesau electronig i ofyn am wybodaeth gan sefydliadau yn y trydydd sector a'i storio er mwyn lleihau nifer y ceisiadau dyblygedig am wybodaeth;
- canoli prosesau rheoli grantiau yn gorfforaethol er mwyn symleiddio prosesau gweinyddu a gwella prosesau cydgysylltu a goruchwylio wrth ddyfarnu arian;
- sicrhau bod prosesau awdurdodau lleol yn fwy tryloyw – er enghraifft, nodi'r meini prawf cymhwyso ar gyfer contractau, y broses ar gyfer cymeradwyo contractau a threfniadau adolygu a rheoli yn glir;
- adolygu prosesau gwneud cais er mwyn sicrhau bod sefydliadau yn y trydydd sector yn canolbwyntio ar ddangos sut mae eu gwaith yn cyfrannu at gyflawni amcanion corfforaethol yr awdurdod lleol; a
- phenodi partneriaid strategol o'r trydydd sector sy'n cael cyllid tymor hwy – yn amodol ar gyflawni targedau ar gyfer cyflawni a pherfformiad – er mwyn lleihau'r angen i dendro'n rheolaidd.

**Ffigur 9 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – canoli hawliadau grant gan y trydydd sector**

Nodwyd gennym fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi ceisio gwella ei broses gwneud cais a mynd i'r afael â'r defnydd tameidiog o grantiau i sefydliadau yn y trydydd sector drwy lunio Protocol Ariannu'r Sector Gwirfoddol. Sefydlwyd y protocol er mwyn cyflawni'r canlynol:

- darparu un pwynt mynediad at gymorth ariannol;
- sefydlu un panel cydasesu;
- llunio proses gyson a thryloyw; ac
- osgoi achosion posibl o ddyblygu a sicrhau y caiff adnoddau eu neilltuo yn ôl angen a nodwyd.

Yn ogystal â'r nodau hyn, nododd yr awdurdod lleol wyth egwyddor a fyddai'n sail i'r gydberthynas rhwng yr awdurdod lleol a'r rhai sy'n gwneud cais am arian, sef:

- cyflawni amcanion polisi strategol
- atebolrwydd
- sefydlogrwydd
- effeithlonrwydd
- tryloywder, cysondeb a thegwch
- diogelwch cyllid
- talu ymlaen llaw

Mae pob un o'r egwyddorion yn helpu i feithrin cydberthynas waith a all helpu i ddatblygu trydydd sector cryf a chynaliadwy.

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio dau banel i ystyried ceisiadau gan sefydliadau, sef: y Panel Arfarnu Technegol (PAT) a'r Panel Grantiau. Mae'r PAT yn cynnwys aelodau a swyddogion o'r awdurdod lleol a'i ddiben yw ystyried dichonoldeb ac addasrwydd y cais gan sefydliad. Wedyn bydd y PAT yn gwneud argymhelliad i'r Panel Grantiau ynghylch a ddylid cymeradwyo neu wrthod y cais neu ohirio penderfynu arno.

Mae'r Panel Grantiau yn cynnwys aelodau etholedig yr awdurdod lleol a hefyd gynrychiolwyr o sefydliadau eraill megis Blaenau'r Cymoedd, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a Chronfa Eglwysi Cymru. Bydd y panel yn cael y ceisiadau gan y PAT ond fe'i sefydlwyd hefyd er mwyn chwilio am gyfleoedd i wneud y canlynol:


- symleiddio prosesau a gwella tryloywder prosesau a phrosesau gwneud penderfyniadau;
- ad-drefnu y gellid cyfuno cynlluniau; a
- sicrhau y gwneir defnydd gwell a mwy effeithlon o adnoddau.

Mae'r panel hefyd yn cael gwybodaeth am statws prosiectau sydd ar waith.

Mae hyn yn rhoi sicrwydd i'r trydydd sector bod yr awdurdod lleol yn ystyried ceisiadau am arian mewn ffordd deg. Mae hefyd yn dangos bod yr awdurdod lleol am sicrhau bod y swm bach o arian sydd ganddo i'w ddosbarthu yn sicrhau'r manteision mwyaf posibl.

2.6 Mae nifer o'r awdurdodau lleol lle y buom yn gwneud ein gwaith maes hefyd wedi diwygio eu codau ymarfer ariannu ar gyfer y trydydd sector, gan nodi'r hyn y maent yn ei ddisgwyl gan yr awdurdod lleol a'r sefydliadau yn y trydydd sector yn glir. Yn benodol, mae awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar bennu safonau cliriach a phwysleisio eu disgwyliadau o ran yr hyn y mae'n ofynnol i sefydliadau yn y trydydd sector ei ddarparu a'i gyflawni. Er bod ffocws ar gyflawni canlyniadau yn dod yn bwysicach mewn penderfyniadau ariannu strategol, costeffeithiolrwydd sefydliadau yn y trydydd sector yw'r ysgogydd allweddol o hyd a defnyddir cymariaethau rhwng prisiau – costau uned fel arfer – yn aml fel y brif sail ar gyfer penderfynu i bwy y dylid dyfarnu grantiau. Manylir ar hyn yn ein harolwg o gynghorau gwirfoddol sirol a nodir yn Ffigur 10.

Ffigur 10 – Barn cynghorau gwirfoddol sirol ar y materion allweddol a ystyrir gan awdurdodau lleol wrth ddyfarnu arian i sefydliadau yn y trydydd sector





Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, **Advice County Voluntary Councils Survey**, Mai 2016

2.7 Mae'r graff yn rhestru'r meini prawf posibl y gall awdurdodau lleol eu defnyddio i ddyfarnu arian i sefydliadau yn y trydydd sector. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn ysgogwyr allweddol y gall awdurdodau lleol eu defnyddio i gydbwyso cost, risg, effaith, ansawdd a chymorth i sefydliadau. Ar gyfer pob opsiwn, ychydig iawn o gynghorau gwirfoddol sirol sy'n credu bod awdurdodau lleol yn defnyddio ystod ddigon eang o feini prawf i benderfynu ar ddyfarniadau ariannol ac mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod angen i awdurdodau lleol wneud rhagor o waith i ddatblygu eu sail ar gyfer dyfarnu arian. Er bod cost, yn sicr, yn ystyriaeth bwysig, mae angen i awdurdodau lleol hefyd sicrhau bod hyn yn cael ei gydbwyso ag ystyriaethau eraill ac nad yw'n cael y flaenoriaeth arnynt, er mwyn iddynt sicrhau bod eu penderfyniadau ariannu strategol yn cynnig gwerth am arian.

2.8 Gofynnodd ein harolwg o ddarparwyr cyngor a gwybodaeth i sefydliadau yn y trydydd sector nodi'r camau a gymerwyd gan awdurdodau lleol i symleiddio prosesau gwneud cais er mwyn cefnogi gwaith cyrff yn y trydydd sector. Mae canfyddiadau'r arolwg a nodir yn Ffigur 11 yn nodi mai profiad y rhan fwyaf o ddarparwyr cyngor yw nad yw awdurdodau lleol wedi symleiddio eu trefniadau ariannu er mwyn lleihau'r baich ar gyrff yn y trydydd sector pan fyddant yn gwneud cais am gontractau.

Ffigur 11 – Barn asiantaethau cyngor yn y trydydd sector ynglŷn â'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn ceisio symleiddio trefniadau gwneud cais er mwyn lleihau beichiau ar sefydliadau





Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Advice Providers Survey, Mai 2016

2.9 At hynny, dengys canfyddiadau'r arolwg yn Ffigur 12, ar y cyfan, nad yw darparwyr cyngor o'r farn bod gan awdurdodau lleol drefniadau talu wedi'u symleiddio sy'n cynorthwyo sefydliadau yn y trydydd sector. Mae ychydig dros hanner y darparwyr cyngor yn cael taliadau rheolaidd ar ôl cyflawni targedau/canlyniadau y cytunwyd arnynt. Fodd bynnag, ymatebodd y rhan fwyaf nad yw awdurdodau lleol yn nodi trefniadau talu yn ddigonol mewn cytundebau ariannu ac ychydig o ddarparwyr cyngor (llai na 25%) sy'n cael taliadau gan awdurdodau lleol yn electronig – y dull rhataf a mwyaf effeithlon o dalu – neu sydd mewn sefyllfa lle y caiff costau sefydlu contractau yr eir iddynt ymlaen llaw eu talu gan awdurdodau lleol.

2.10 Daethom i'r casgliad, ar y cyfan, fod y prosesau gwneud cais a'r prosesau gwybodaeth a ddefnyddir gan awdurdodau lleol ar gyfer y trydydd sector yn amrywio'n ormodol ac nad ydynt yn effeithlon nac yn ddarbodus. O ganlyniad, oherwydd y gwendidau hyn, nid yw awdurdodau lleol yn gwneud popeth a allant er mwyn helpu ac annog sefydliadau yn y trydydd sector i wneud cais am arian.

Ffigur 12 – Barn darparwyr cyngor yn trydydd sector ar drefniadau talu awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Advice Providers Survey, Mai 2016

## Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn defnyddio'r dull mwyaf priodol o ariannu gwasanaethau

2.11 Drwy eu trefniadau ariannu strategol, mae awdurdodau lleol yn nodi'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt ac mae hyn yn fuddsoddiad sylweddol o ran adnoddau cyhoeddus. Mae sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael y cyflenwad gorau posibl o wasanaethau am y pris isaf, tra'n sicrhau ar yr un pryd fod darparwyr gwasanaethau yn y trydydd sector yn cael cyfle i gystadlu am waith ar sail deg, yn her. Yn gyffredinol, mae trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer ariannu gwasanaethau yn seiliedig ar ddau brif ddull o weithredu - sef caffael agored neu gaffael caeedig - ac mae Ffigur 13 yn crynhoi manteision ac anfanteision y dulliau hyn o weithredu.

2.12 Nodwyd gennym fod nifer fach o awdurdodau lleol yn parhau i weithio gyda'r un sefydliadau yn y trydydd sector heb brofi'r farchnad yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cael y budd mwyaf posibl o'u hadnoddau. Er y gall gweithio o fewn partneriaethau sefydledig leihau'r risgiau i awdurdodau lleol neu gyfyngu arnynt, mae'r dull gweithredu yn lleihau'r gronfa o ddarpar gyflenwyr a gall hefyd, drwy amryfusedd, weithio yn erbyn amcanion Llywodraeth Cymru i weld awdurdodau lleol yn datblygu sefydliadau trydydd sector lleol, a gall beri rhwystredigaeth pan ystyrir bod dulliau caeedig o'r fath yn annheg ac yn cyfyngu ar gyfleoedd i awdurdodau lleol sicrhau rhagor o welliannau ac arbedion effeithlonrwydd. Mae angen i awdurdodau lleol sylweddoli nad yw defnyddio dull caeedig yn rhoi mynediad cyfartal i bob sefydliad yn y trydydd sector a'i bod yn bosibl y collir sefydliadau mwy costeffeithlon ac effeithiol sydd mewn gwell sefyllfa i ddarparu gwasanaethau.

2.13 I'r gwrthwyneb, mae dulliau ariannu agored yn darparu ar gyfer mwy o gystadleuaeth ac yn galluogi amrywiaeth ehangach o sefydliadau i wneud cais am arian, er y gall hyn gael effaith negyddol ar sefydliadau lleol bach sydd bellach yn gorfod cystadlu ag amrywiaeth ehangach o sefydliadau am gontractau awdurdodau lleol. Ar y sail hon, dylai awdurdodau lleol fod yn defnyddio rheoliadau caffael yr Undeb Ewropeaidd a gyflwynwyd yn ddiweddar – sef **Cyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus yr UE 2014**[19] (Cyfarwyddeb 2014) – i gefnogi'r ffordd y maent yn ariannu gwaith.

19 Yn benodol, gall awdurdodau lleol hysbysebu eu contractau drwy hysbysiadau gwybodaeth ymlaen llaw sy'n llai beichus (yn lle hysbysiadau o gontractau). At hynny, gallant ddod i gytundeb â'r cynigwyr a ddewiswyd o flaen llaw ar y terfynau amser yn eu gweithdrefnau caffael. Gwasanaeth Masnachol y Goron, A Brief Guide to the EU Public Contract Directives 2014, Hydref 2016.

Ffigur 13 – Manteision ac anfanteision caffael agored a chaffael caeedig i awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector

## Caffael agored

Fel arfer mae caffael agored yn broses un cam, lle mae pob sefydliad trydydd sector â diddordeb yn ymateb i hysbysiad yn gwahodd cyflwyniadau i ddarparu gwasanaethau penodol. Mae'r hysbysiad o'r contract yn nodi ble i gael dogfennau a'r dyddiad olaf y caiff cyflwyniadau eu derbyn. Mae'r broses gaffael agored ar gael i bob sefydliad trydydd sector â diddordeb heb fawr ddim cyfyngiadau, os o gwbl.

### Manteision

- dim ffafriaeth (proses gwneud cais sy'n agored i bawb);
- gall cyflenwyr newydd ymuno â'r farchnad;
- mwy o gyfleoedd cyflogaeth os bydd cwmni newydd yn cael gwaith;
- mae'n helpu cyflenwyr i ddatblygu a chynyddu eu gwaith;
- mae'r awdurdod lleol yn lledaenu'r risg drwy gynyddu nifer y cyflenwyr a ddefnyddir;
- mae proses gystadleuol yn arwain at gynigion tra chystadleuol; a
- chost is a'r tebygolrwydd y bydd ymatebwyr yn derbyn mwy o risg/cyfrifoldeb.

### Anfanteision

- gall cyflenwyr dibrofiad ac anhysbys ymuno â'r farchnad;
- mae cyflenwyr yn buddsoddi amser ac arian ymlaen llaw heb unrhyw sicrwydd y byddant yn gwneud elw;
- mwy o amser gwerthuso er mwyn i'r awdurdod lleol gwblhau gwiriadau cefndir a gwerthuso dogfennau;
- cystadleuaeth afrealistig;
- mwy o siawns o ymgyfreitha (o gymharu â phroses gaffael gaeedig)
- gall gymryd amser hir a bod yn ddrud;
- mae'r broses yn gofyn am ddilyn gweithdrefnau a chydymffurfio â hwy yn llwyr;
- mae'n atal cyflenwyr rhag cymryd rhan yn y broses o ddatblygu manylebau a chytuno arnynt;
- mae'n cyfyngu ar y posibilrwydd o feithrin cydberthynas hirdymor â chyflenwyr;
- gall atal arloesi drwy ganolbwyntio ar wneud elw;
- mae'n cyfyngu ar gyfranogiad cyflenwyr am ei bod yn rhy ffurfiol; ac
- mae cyflenwyr yn torri corneli er mwyn bod yn gystadleuol sy'n cynyddu'r risgiau.

## Caffael caeedig

Mae'r broses gaffael gaeedig yn cyfyngu'r cais am gyflwyniadau i nifer ddethol o sefydliadau yn y trydydd sector. Er yr ystyrir ei bod yn broses gystadleuol, dim ond y sefydliadau hynny yn y trydydd sector a roddir ar y rhestr fer neu a wahoddir i wneud cais am y contract yn dilyn proses cyn cynhwyso neu broses ddethol a all gymryd rhan yn y gystadleuaeth. Mae sicrhau bod y rhai a ddewisir i gyfranogi yn gymwys i fodloni'r math penodol o ofyniad neu fod amodau penodol yn cyfiawnhau defnyddio nifer gyfyngedig o sefydliadau yn y trydydd sector er mwyn lleihau'r amser sydd ei angen i gwblhau'r broses ddethol a'i chost yn allweddol i broses gaffael gaeedig effeithiol.

### Manteision

- dim ond y cyflenwyr hynny a all ddangos tystlythyrau, gwybodaeth, adnoddau, sefydlogrwydd ariannol a phrofiad a gaiff eu gwahodd gennych;
- mae'n cyfyngu'r rhestr o gyflenwyr i nifer y gellir ei rheoli;
- gellir gwrthdroi'r broses yn gyflym ac mae'n llai costus nag opsiynau eraill;
- mae'n gwobrwyo'r cyflenwyr sy'n perfformio orau ac yn dileu elfen o risg; a
- pharhad o ran y broses a pherfformiad ar gyfer yr awdurdod lleol a chyflenwyr.

### Anfanteision

- mae'r awdurdod lleol yn agored i gyhuddiadau o ffafriaeth;
- llai o gystadleuaeth o ran pris;
- y potensial ar gyfer tendro gan gartél;
- ni all cyflenwyr newydd a allai ddarparu gwasanaeth da am lai o gost gystadlu;
- cyfyngir hyd yr eithaf ar nifer y cyflenwyr ac mae risg y bydd awdurdodau lleol yn wynebu anawsterau gweithredu os bydd un cyflenwr yn gadael y farchnad;
- mae angen i'r broses cyn cymhwyso fod yn agored, yn deg ac yn ystyriol; a
- gall proses gaffael gaeedig gyfyngu ar nifer y sefydliadau yn y trydydd sector a allai wneud cais.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

2.14 Mae Cyfarwyddeb 2014 yn darparu cyfundrefn gaffael lai manwl newydd. Mae'r rheoliadau hyn yn galluogi awdurdodau lleol i ddarparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch y trydydd sector islaw trothwy o €750,000 heb fod angen prosesau caffael ffurfiol. Mae'r gyfarwyddeb yn cyflwyno nifer o reolau a gweithdrefnau wedi'u symleiddio. Maent yn ehangu'r posibiliadau ar gyfer negodi: gellir defnyddio'r weithdrefn gystadleuol ynghyd â negodi pan gyfiawnheir hynny gan yr amgylchiadau penodol mewn perthynas â natur, cymhlethdod neu gyfansoddiad cyfreithiol neu ariannol prosiect penodol, neu gan y ffaith na all math parod o ateb ddiwallu anghenion yr awdurdod sy'n contractio. Mae'r ddogfennaeth sy'n ofynnol gan y gyfarwyddeb hefyd yn cael ei lleihau, sydd i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith ei bod yn orfodol derbyn hunanddatganiadau gan gynigwyr (drwy un ddogfen gaffael Ewropeaidd safonedig) sy'n golygu mai dim ond y cynigiwr buddugol sy'n gorfod cyflwyno tystiolaeth ffurfiol (tystysgrifau ac ardystiadau).

2.15 Fodd bynnag, nododd nifer o gynghorau gwirfoddol sirol fod awdurdodau lleol yn araf yn mabwysiadu'r system symlach newydd ar gyfer contractau sy'n werth llai na €750,000, ac roeddent yn feirniadol o'r ffaith nad yw awdurdodau lleol yn defnyddio darpariaethau'r gyfarwyddeb i symleiddio a chyflymu eu dulliau ariannu strategol. Er mwyn sicrhau bod manteision y dull ariannu a ddewisir yn drech na'r costau, byddem felly yn disgwyl i awdurdodau lleol ystyried yr angen, lle y bo'n bosibl, i hyrwyddo cystadleuaeth agored ac effeithiol drwy'r broses gaffael; a chydbwyso hyn â gwerth y dull gweithredu a'r risg sy'n gysylltiedig ag ef.

2.16 Wrth benderfynu pa ddull gweithredu i'w fabwysiadu, dylai awdurdodau lleol, felly, wneud y canlynol:

- penderfynu ar y mathau o wasanaethau sy'n cael eu hariannu;
- ystyried y math o wybodaeth sydd ei hangen er mwyn gwneud penderfyniad (er enghraifft, ceisio dyfynbrisiau neu ddefnyddio proses dendro neu broses gynnig);
- diffinio gwerth y caffaeliad a'r risg sy'n gysylltiedig ag ef;
- penderfynu a ellir mabwysiadu prosesau llai manwl yn unol â **Chyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus yr UE 2014** ar gyfer y gwaith a ariennir;
- penderfynu i ba raddau y gall sefydliadau yn y trydydd sector fodloni'r gofynion ariannu;
- ystyried a oes angen atebion arloesol; a
- nodi'r gost a'r adnoddau sydd eu hangen gan yr awdurdod lleol a'r darpar sefydliadau yn y trydydd sector sydd am ddarparu'r gwasanaeth.

## Bu cynnydd sylweddol yn nifer y contractau ar gyfer gwasanaethau ac mae’r gostyngiad yn y cymorth grant cyffredinol yn creu rhai anawsterau ar gyfer sefydliadau yn y trydydd sector

2.17 Mae sefydliadau yn y trydydd sector yn cael ‘grantiau’ a ‘chontractau’ gan awdurdodau lleol er mwyn eu galluogi i wneud eu gwaith. Mae grantiau yn cyfrannu at y costau sy’n gysylltiedig â datblygu a rhedeg sefydliad ond nid ydynt o reidrwydd yn ariannu gwasanaeth penodol. Mewn cymhariaeth, mae contractau yn arian a roddir gan awdurdodau lleol i sefydliad yn y trydydd sector ar gyfer gwaith penodol lle mae’r lefel a’r math o wasanaeth wedi’u diffinio’n glir. Mae Ffigur 14 yn crynhoi’r gwahaniaethau rhwng y dulliau gweithredu.

Ffigur 14 – Y prif wahaniaethau rhwng grantiau a chontractau i wasanaethau’r trydydd sector

| Grantiau | Contractau |
|---|---|
| Mae grantiau i sefydliadau yn y trydydd sector yn adnoddau a delir er mwyn helpu i redeg y corff trydydd sector ac nis dyrennir ar gyfer contract na gwasanaeth penodol. Cyfeirir atynt yn aml fel grantiau craidd neu gymorth craidd ac mae'r grant yn galluogi sefydliad yn y trydydd sector barhau i weithredu a chefnogi ei weithgarwch craidd.<br>Mae grantiau yn tueddu i fod yn seiliedig ar y gost y mae'r sefydliad trydydd sector yn mynd iddi wrth ddarparu amrywiaeth o wasanaethau, y gall fod yn anodd mesur eu heffaith. Mae'r ariannwr yr un mor agored i risgiau ariannu â'r darparwr a bydd y grant yn unigryw i amgylchiadau'r sefydliad trydydd sector am na fu'n destun profion marchnad ac am ei fod yn aml yn seiliedig ar negodi.<br>Yn hanesyddol, mae grantiau wedi'u rhoi i gyrff cymunedol llai o faint a mwy lleol yr ystyrir eu bod yn fwy atebol i'r cymunedau a wasanaethir ganddynt. | Mae contractau i sefydliadau yn y trydydd sector yn adnoddau ar gyfer gwasanaeth penodol fel y'i nodir gan yr awdurdod lleol ac fel arfer fe'u dyfernir yn dilyn rhyw fath o dendr neu arfarniad. Dim ond er mwyn ariannu'r gwasanaeth sydd wedi'i ariannu y defnyddir yr adnoddau hyn ac ni ddylid eu defnyddio i groesgymorthdalu gweithgarwch arall. Sicrheir contractau drwy ryw fath o gystadleuaeth ac maent yn seiliedig ar bris (er ei bod yn bosibl mai dim ond un o benderfynyddion y contract yw'r pris). Mae contractau yn gweithredu yn erbyn allbwn diffiniedig ac yn gweithredu â mwy o sicrwydd i'r ariannwr a'r sefydliad trydydd sector. Mae darparwr y gwasanaeth yn wynebu llawer mwy o risgiau ariannu. Gan fod contractau yn agored i amrywiaeth ehangach o sefydliadau yn y trydydd sector dendro am waith, gall y dull gweithredu a fabwysiedir gan awdurdodau lleol ddenu sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol i dendro ac, o ganlyniad, collir y ffocws lleol neu gymunedol posibl. |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

2.18 Dengys ein dadansoddiad, a nodir yn Ffigur 15, rhwng 2001-02 a 2013-14, fod newid wedi bod o ran y modd y mae awdurdodau lleol yn ariannu gwasanaethau yn y trydydd sector. Er bod cyfanswm yr arian grant wedi cynyddu mewn termau arian parod o £30.8 miliwn yn 2001-02 i £39.5 miliwn yn 2013-14, mewn termau real (gan ystyried chwyddiant) bu gostyngiad o 19.1%. Hefyd, gwelwyd gostyngiad sylweddol yng nghyfran yr adnoddau a dyrennir gan awdurdodau lleol i gyrff yn y trydydd sector fel grantiau. Yn 2001-02 roedd grantiau yn cyfrif am 45.1% o'r holl arian a roddwyd i'r trydydd sector gan awdurdodau lleol. Erbyn 2013-14 roedd arian grant wedi gostwng i 15.8% o'r holl arian a roddwyd i'r trydydd sector gan awdurdodau lleol. Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd contractau i sefydliadau yn y trydydd sector £171.9 miliwn, sy'n gynnydd o 302% mewn termau real. Mae cyfran yr arian a ddarperir fel contractau hefyd wedi cynyddu'n sylweddol o 54.9% yn 2001-02 i 84.2% yn 2013-14. Mae'r newid yn y dull ariannu o grantiau i gontractau yn dangos bod awdurdodau lleol yn ailganolbwyntio'r arian y maent yn ei roi i'r trydydd sector gan fuddsoddi mewn gwasanaethau sydd o fudd uniongyrchol i weithgareddau penodol neu sy'n helpu i ddarparu gweithgareddau penodol.

2.19 Er ei bod yn debygol y bydd gan gontractau amcanion cyflawni a chanlyniadau cliriach y gellir eu nodi, mae sefydliadau yn y trydydd sector yn rhoi gwerth ar grantiau am eu bod yn rhoi mwy o ryddid i sefydliadau ddatblygu a darparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau. Felly, mae'r gostyngiad mewn arian grant yn dangos bod awdurdodau lleol yn llai parod i gyfrannu at dalu costau rhedeg sefydliadau o ddydd i ddydd lle mae'n fwy anodd, ar y cyfan, i nodi sut mae adnoddau yn cyfrannu'n uniongyrchol at sicrhau manteision i bobl a chymunedau lleol neu, yn wir, hyrwyddo gwaith awdurdodau lleol.

Ffigur 15 – Cyllid a ddyfarnwyd i wasanaethau'r trydydd sector gan awdurdodau lleol rhwng 2001-02 a 2013-14

| Maes ariannu | 2001-02 | 2003-04 | 2009-10 | 2013-14 | Newid mewn termau real |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y cyllid ar gyfer grantiau | £30,785,000 | £48,579,000 | £35,797,000 | £39,484,000 | -19.1% |
| Cyfanswm y cyllid ar gyfer contractau | £37,439,000 | £78,154,000 | £120,578,000 | £209,368,000 | 302% |
| **Cyfanswm** | **£68,223,000** | **£125,733,000** | **£156,375,000** | **£248,852,000** | **165.5%** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gyllid y trydydd sector yn 2001-02; 2003-04; 2009-10; a 2013-14 a luniwyd gan LGDU ar gyfer CGGC (mae'r data wedi'u talgrynnu i'r £1000 agosaf).

2.20 Nodwyd gennym y gall prosesau contractio a'r gostyngiad mewn grantiau greu amgylchedd mwy anodd i sefydliadau yn y trydydd sector. Dim ond pedwar o'r 56 o sefydliadau a ymatebodd i'n cais am dystiolaeth a nododd fod y newid yn y dull ariannu o grantiau i gontractau wedi cael effaith gadarnhaol ar eu sefydliad, tra nododd 19 fod y newid wedi cael effaith negyddol a nododd 18 nad oedd wedi cael effaith gadarnhaol na negyddol arnynt. Nid oedd 14 o'r ymatebwyr yn gwybod ac nid ymatebodd un. Mae effaith gronnol gostyngiadau mewn grantiau ac awdurdodau lleol yn ceisio sicrhau bod yr arian y maent yn ei roi i'r trydydd sector yn dod â'r manteision mwyaf posibl yn arwain at sefyllfa lle mae llawer o grwpiau yn y trydydd sector, yn enwedig cyrff lleol bach a chanolig, yn ei chael hi'n anodd parhau i weithredu a chynnal lefelau a safonau gwasanaeth priodol.

2.21 Er enghraifft, nododd Cymorth i Ferched Cymru, mewn rhai achosion, fod awdurdodau lleol wedi dyfarnu contractau i ddarparwyr gwasanaethau cyffredinol yn hytrach na darparwyr arbenigol am eu bod wedi cyflwyno prisiau is mewn ymarferion tendro cystadleuol. Fodd bynnag, yn aml nid oedd gan y darparwyr penodedig y wybodaeth arbenigol i ddarparu gwasanaethau mor arbenigol, ac roedd hyn yn cael effaith andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Er ei bod yn ddilys i awdurdodau lleol sicrhau'r pris gorau am wasanaeth, ni ddylai contractau gael eu dyfarnu ar sail pris yn unig. Mae ansawdd, effaith a chwmpas gwasanaeth a nifer y bobl sy'n ei ddefnyddio hefyd yn bwysig, yn enwedig yn achos gwasanaethau arbenigol sydd, yn ôl eu natur, yn aml yn cynnig gwell gwerth am arian er y gallant fod yn ddrutach.

2.22 Nododd pedwar o'r awdurdodau lleol a ymatebodd i'n harolwg eu bod wedi diogelu cyllid y trydydd sector rhag toriadau i gyllidebau yn ystod y tair blynedd ariannol ddiwethaf ac nid oedd tri wedi gallu cynnig y diogelwch hwnnw. Fodd bynnag, dim ond un o'r cynghorau gwirfoddol sirol a nododd fod awdurdodau lleol wedi diogelu cyllid y trydydd sector rhag toriadau i gyllidebau. Nododd y mwyafrif helaeth – 17 o'r 19 o ymatebwyr – nad yw awdurdodau lleol wedi ceisio diogelu cyllid y trydydd sector ac nid oedd un ymatebydd yn gwybod. At hynny, dim ond wyth o'r asiantaethau cyngor a gwybodaeth a oedd o'r farn bod eu hawdurdod lleol wedi diogelu gwasanaethau cyngor a gwybodaeth y trydydd sector rhag toriadau i gyllidebau yn ystod y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf a nododd 22 nad yw hyn wedi digwydd ac nid ymatebodd tri i'r cwestiwn hwnnw. Dengys ein gwaith dadansoddi data mai dim ond un awdurdod lleol sydd wedi lleihau'r arian y mae'n ei roi i'r trydydd sector a bod pob un arall wedi cynyddu ei wariant mewn termau real. Mae'n bosibl bod y gwahaniaeth barn yn adlewyrchu newid mewn trefniadau ariannu gyda nifer y grantiau yn gostwng a nifer y contractau ar gyfer gwasanaethau yn cynyddu.

2.23 Nododd sefydliadau yn y trydydd sector a ymatebodd i'n cais am dystiolaeth fod grantiau yn fwy effeithlon i'r trydydd sector am fod comisiynu yn broses ddrud ac am fod cryn dipyn o wastraff, o ran amser ac adnoddau, yn gysylltiedig â hi Nododd ymatebydd arall mai'r her yw parhau i fod yn wasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmer yn hytrach na dod yn fusnes sy'n ceisio gwneud elw, tra nododd ymatebydd arall, 'sadly there is little respect for volunteering and lack of understanding of the costs or benefits of volunteering for individuals' and communities' health, well-being and up skilling as well as the added value in direct service delivery. There is too much expectation of the third sector being able to provide services at no cost or at least self-finance part of the service. Full cost recovery is not accepted. Middle managers often have little business understanding. Too often annual contracts are not paid until end of financial year causing cash flow problems for smaller organisations.'

2.24 Mewn ymateb i'r gostyngiad yn nifer y grantiau a roddir, mae rhai grwpiau wedi ceisio cymorth ariannol o ffynonellau eraill drwy roddion cyffredinol neu geisiadau am arian i ymddiriedolaethau a sefydliadau. Fodd bynnag, ar y cyfan ni fu'r cymorth ariannol hwn yn ddigon i dalu costau rhedeg neu mae angen cael cymorth gan gyrff cyhoeddus ar ffurf arian cyfatebol er mwyn cael arian o'r fath. Mae sefydliadau eraill yn y trydydd sector wedi cymryd camau i droi'n fentrau cymdeithasol[20] gyda'r bwriad o ddenu buddsoddiad cymdeithasol[21], manteisio ar gyfleoedd i fasnachu a mabwysiadu arferion busnes fel ffordd o gynhyrchu incwm i ariannu gweithgareddau prif ffrwd.

2.25 Drwy gymryd y camau hyn, mae rhai sefydliadau yn y trydydd sector bellach yn ymgysylltu â'r 'farchnad buddsoddi cymdeithasol' y bwriedir iddi ddisodli arian cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, drwy ddefnyddio offerynnau ariannol megis talu yn ôl canlyniadau a bondiau effeithiau cymdeithasol[22]. Mae rhai mentrau cymdeithasol sy'n denu cyllid preifat yn gwneud hynny drwy wneud ymrwymiadau dyled gyda buddsoddwyr preifat, tra'n parhau i ddibynnu ar gyllid y sector cyhoeddus i ddarparu'r gwasanaeth a gontractiwyd ac ad-dalu eu buddsoddwyr. Felly, mae twf maes buddsoddi mewn mentrau cymdeithasol yn cynnig cyfleoedd ond gallai hefyd beri risg i sefydliadau yn y trydydd sector os na chaiff ei reoli'n effeithiol. Nid oes ffordd gywir nac anghywir o ddefnyddio grantiau ac mae angen i awdurdodau lleol sicrhau, wrth benderfynu pa wasanaeth sydd ei eisiau arnynt, eu bod yn defnyddio'r dull ariannu gorau, boed yn grantiau neu'n gontractau, i gyflawni'r hyn a fwriedir. At hynny, mae'n rhaid cydbwyso'r dull hwn o weithredu â pholisi caffael yn genedlaethol a all hefyd fod yn her gan fod angen i awdurdodau lleol gydbwyso'r ymgais i sicrhau cydgrynoadau ac arbedion maint er mwyn lleihau costau a gwneud arbedion ar y naill law â dulliau cyflawni lleol sy'n hyrwydo amcanion cymunedol ehangach ac yn cefnogi grwpiau cymunedol llai o faint yn well ar y llaw arall.

20 Mae mentrau cymdeithasol yn sefydliadau sy'n defnyddio strategaethau masnachol i wella llesiant dynol ac amgylcheddol cymaint â phosibl ochr yn ochr â gwneud cymaint o elw â phosibl. Gall mentrau cymdeithasol fod yn sefydliadau dielw a gallant fod ar ffurf menter gydweithredol, sefydliad cydfuddiannol, busnes cymdeithasol, corfforaeth fuddiannau, cwmni buddiannau cymunedol neu sefydliadau elusennol. Yr hyn sy'n dodi mentrau cymdeithasol ar wahân yw bod eu cenhadaeth gymdeithasol yr un mor greiddiol i'w llwyddiant ag unrhyw elw posibl.

21 Mae Social Investment Business (SIB) yn elusen a chwmni masnachu a gofrestrwyd yn y DU sy'n cynnig benthyciadau, grantiau a chynhyrchion ariannol eraill i elusennau a mentrau cymdeithasol. Mae SIB yn rheoli un o'r portffolios mwyaf o fuddsoddiadau cymdeithasol yn y DU. Wedi'i sefydlu bu ar flaen y gad ym maes buddsoddi cymunedol yn y DU ac, hyd yma, mae wedi sicrhau mwy na £30 miliwn gan sefydliadau corfforaethol a sector cyhoeddus.

22 Mae bond effaith gymdeithasol yn gontract â'r sector cyhoeddus lle y gwneir ymrwymiad i dalu am ganlyniadau cymdeithasol gwell sy'n arwain at arbedion i'r sector cyhoeddus.

## Gallai'r duedd gynyddol ddiweddar i awdurdodau lleol fynnu bod sefydliadau yn y trydydd sector yn ffurfio consortia i gyflwyno ceisiadau am gontractau beri risg i bob parti yn ogystal â chynnig cyfleoedd iddynt

2.26 Nodwyd gennym fod tuedd gynyddol i gyrff yn y trydydd sector gael eu hannog gan awdurdodau lleol i gyfranogi mewn ceisiadau am arian fel rhan o gonsortiwm. Mae awdurdodau lleol bellach yn mynd ati i annog cyrff yn y trydydd sector i ddatblygu consortia i gyflwyno ceisiadau ar sail y gred y bydd hyn yn gwella gwasanaethau i ddinasyddion a chymunedau yn ogystal â sicrhau gwell gwerth am arian i'r awdurdod lleol. Ystyrir bod consortia yn cynnig arbedion maint, prosesau mwy effeithlon a llinellau ymgysylltu cliriach. Fodd bynnag, gall fod i gonsortia anfanteision sylweddol hefyd. Er mwyn bod yn effeithiol, mae angen buddsoddi cryn dipyn o amser ac adnoddau mewn consortia i ddechrau ac, er y gall y dull hwn o weithredu fod yn effeithiol iawn o ran defnyddio amrywiaeth eang o arbenigedd i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau, nodwyd gennym nad yw awdurdodau lleol bob amser yn ystyried yr amser y mae'n ei gymryd a'r adnoddau sydd eu hangen i lunio ceisiadau o'r fath.

2.27 Mae awdurdodau lleol yn disgwyl i sefydliadau sy'n cystadlu â'i gilydd fel arfer ymuno lle nad oes unrhyw draddodiad o gydweithio neu lle mae amharodrwydd i gydweithio. Bwriedir i'r cydweithredu hwn sicrhau bod tendrau yn fwy deniadol i awdurdodau lleol ond mae'n creu rhai heriau sylweddol i sefydliadau yn y trydydd sector. Er enghraifft, rheolir sefydliadau yn y trydydd sector gan gyfraith elusennau ac mae ganddynt eu hamcanion eu hunain a all fod wedi'u cyfyngu i set benodol o ddefnyddwyr neu ardal. Felly, mae'n bosibl na fydd consortia yn opsiwn ymarferol.

2.28 Un o brif werthoedd y trydydd sector yw ei amrywiaeth. Nid yw annog sefydliadau annibynnol i gydweithio er mwyn darparu gwasanaethau lle nad oes unrhyw gydberthnasau wedi bodoli'n flaenorol (yn enwedig pan fyddant wedi bod yn cystadlu â'i gilydd) yn gwneud y defnydd gorau o'r gwahaniaethau sy'n bodoli. Hefyd, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod eu trefniadau ariannu strategol yn cynnwys digon o amser paratoi er mwyn sicrhau y gall consortia ddatblygu'n ddigonol er mwyn iddynt allu cyflwyno ceisiadau a thendrau realistig a digon cadarn ar gyfer gwasanaethau. Nid yw hyn yn digwydd bob amser a gwelwyd enghreifftiau lle roedd amserlenni awdurdodau lleol yn parhau i gael eu llywio gan optimistiaeth yn hytrach na realaeth.



Christian Merrick yng Nghosmeston: Mae Christian wedi bod yn gwirfoddoli gyda Diwrnodau Gwyrdd Innovate Trust ym Mharc Gwledig Llynnoedd Cosmeston ers dechrau 2016. Un o'r 15 llun uchaf yng Nghystadleuaeth Ffotograffiaeth Aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2016.

Ffynhonnell: WCVA

## Nid yw'r defnydd parhaus o ddyfarniadau ariannol blynyddol yn darparu ar gyfer ariannu'r trydydd sector mewn ffordd gynaliadwy

2.29 Mae cyllid blynyddol neu fyrdymor yn creu nifer o broblemau i sefydliadau yn y trydydd sector. Gall arwain at anawsterau wrth ddenu a chadw staff, gyda gormod o amser yn cael ei dreulio ar ddatblygu a chyflwyno ceisiadau am arian yn hytrach na darparu gwasanaethau, ac anawsterau wrth sicrhau'r perfformiad gorau posibl pan fydd cryn dipyn o ansicrwydd. Mae nifer o sefydliadau yn y trydydd sector yn nodi nad yw trefniadau ariannu blynyddol yn darparu sail effeithiol ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau, sydd i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith ei bod yn anodd cysoni penderfyniadau ariannu, prosesau recriwtio staff a hyd contractau. Mae arian cynaliadwy yn hanfodol i sefydliadau yn y trydydd sector sy'n recriwtio ac yn cadw staff â chymwysterau a phrofiad addas.

2.30 Dim ond tri o'r naw cyngor gwirfoddol sirol lle mae gan yr awdurdod lleol un strategaeth neu fframwaith a nododd fod strategaeth eu hawdurdod lleol yn cyd-fynd â chod ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu'r trydydd sector a nododd y chwech arall nad yw strategaethau lleol yn cyd-fynd â'r cod. Er bod cod ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu gwasanaethau yn y trydydd sector yn nodi y dylai awdurdodau lleol roi o leiaf dri mis o rybudd y byddant yn rhoi'r gorau i ariannu gwasanaeth, nodwyd gennym nad oedd pob awdurdod lleol bob amser yn gallu darparu'r wybodaeth hon yn amserol. Gall cadarnhad hwyr o gyllidebau ar lefel genedlaethol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru effeithio ar hyn.

2.31 Mae cyfathrebu gwael yn creu cryn dipyn o ansicrwydd ar gyfer gweithgarwch cynllunio busnes sefydliadau yn y trydydd sector, ac mae'n effeithio ar eu gallu i recriwtio a chadw staff o ansawdd uchel yn ogystal â cheisio darparu atebion arloesol. Mae'r diffyg gwybodaeth amserol am gyllid yn y dyfodol yn golygu bod sefydliadau yn y trydydd sector yn rhoi hysbysiadau diswyddo i staff, mewn rhai achosion dri mis cyn diwedd cylch cyllido, a all fod yn gyllid blynyddol. Gall hyn gyfrannu at golli staff sy'n chwilio am sicrwydd a hefyd gynyddu costau gweinyddu, recriwtio a hyfforddi. Yn bwysicach fyth, mae'r ffaith na roddir digon o rybudd yn cael effaith andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaethau mewn achosion lle y gallai gwasanaethau gael eu tynnu'n ôl neu eu newid.

2.32 Dim ond tri o'r cynghorau gwirfoddol sirol a nododd fod awdurdodau lleol yn rhoi digon o rybudd i sefydliadau yn y trydydd sector am benderfyniadau ariannu a all helpu i sicrhau gwell dilyniant o ran darparu gwasanaethau. Nododd naw o'r cynghorau gwirfoddol sirol nad oedd eu hawdurdodau lleol yn rhoi digon o rybudd. Gall y cylch ariannu aneffeithlon hwn arwain at brosesau darparu gwasanaethau aneffeithiol ac nid yw awdurdodau lleol bob amser yn cael gwerth llawn o'r contract y maent yn ei ariannu. Er enghraifft, nododd un ymatebydd i'n cais am dystiolaeth, 'over the last five years there has seldom been a level playing field. Projects are confused, both in application and design. They are not efficient or effective with a long set up and long wind down and when a new similar project starts again they do not learn from the mess of last time, time and money are wasted again and beneficiaries miss out.'

2.33 Mae dau o'r awdurdodau lleol lle y buom yn gwneud ein gwaith maes wedi ceisio ateb her y cylch ariannu blynyddol drwy ymrwymo i roi cyllid tymor hwy i sefydliadau yn y trydydd sector. Yng Nghastell-nedd Port Talbot mae'r awdurdod lleol wedi cytuno mewn egwyddor i ariannu wyth sefydliad yn y trydydd sector fel partneriaid strategol am y tair blwyddyn ariannol nesaf yn dechrau o 1 Ebrill 2016. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi bod y sefydliadau hyn yn hanfodol i gyflawni amcanion corfforaethol yr awdurdod lleol ac mae'n rhoi cyllid tymor hwy iddynt. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod lleol am greu diwylliant o ddibyniaeth ac, felly, mae'n gweithio gyda'r partneriaid strategol hyn er mwyn manteisio ar ffynonellau amgen o gyllid ar ddiwedd y tair blynedd.

2.34 Galwodd nifer o sefydliadau yn y trydydd sector ar i awdurdodau lleol ystyried y posibilrwydd o fod yn fwy hyblyg wrth ddefnyddio grantiau wrth ariannu'r trydydd sector. Y rheswm dros hyn yw bod sefydliadau yn y trydydd sector o'r farn, oherwydd eu dulliau cyflawni arloesol a'r defnydd arloesol y maent yn ei wneud o wirfoddolwyr, y gallant wneud mwy â swm llai nag y gall awdurdodau lleol ei wneud â chyllidebau mwy o faint. Galwyd hefyd ar i awdurdodau lleol ystyried yn ofalus yr hyn y maent yn ei ariannu i wella canlyniadau i'r cyhoedd ac osgoi sefyllfa lle maent ond yn ariannu gweithgarwch y gellir ei fesur yn hawdd. Nododd sefydliadau yn y trydydd sector fod gan wasanaethau a ariennir lai o hyblygrwydd i ymateb i anghenion defnyddwyr gwasanaethau sy'n dod i'r amlwg o gymharu â gwasanaethau sy'n cael arian grant.

## Mae adennill costau llawn yn dal i fod yn broblem i lawer o gyrff yn y trydydd sector

2.35 Yn draddodiadol, bu'n arfer safonol i sefydliadau yn y trydydd sector brisio gweithgareddau yn seiliedig ar gost lawn eu cyflawni a chynnwys mewn costau gyflogau staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiect yn ogystal â gorbenion[23]. Fodd bynnag, yn aml ni ofynnir am orbenion rheolwyr nac adeiladau ac nid ydynt yn cael eu cynnwys mewn tendrau gan awdurdodau lleol ychwaith. Mae hyn yn deillio'n rhannol o'r ffaith bod rhai sefydliadau yn y trydydd sector yn ei chael hi'n anodd cyfrifo cost wirioneddol gwasanaeth, ond mae hefyd yn adlewyrchu amharodrwydd cynyddol ymhlith awdurdodau lleol i dalu cost lawn[24] sefydliad yn y trydydd sector.


2.36 Dengys Ffigur 16, nad yw 13 o'r 19 o gynghorau gwirfoddol sirol a ymatebodd i'n harolwg yn credu bod gan eu hawdurdod lleol brosesau ar gyfer adennill costau llawn ar waith.

2.37 Nododd un cyngor gwirfoddol sirol fod 'full cost recovery is included in the funding code of practice but there is a statement to say that full cost recovery might make the third sector group less competitive, so it is not really actively encouraged'. Mewn rhai achosion, dim ond gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol a gwmpesir gan drefniadau ariannu'r awdurdod lleol ac mae'n rhaid i sefydliadau sybsideiddio cost darparu gwasanaethau drwy ffynonellau eraill. Roedd llawer o sefydliadau yn y trydydd sector o'r farn nad yw awdurdodau lleol yn llwyr ddeall costau llawn darparu gwasanaethau a phwysigrwydd gorbenion i alluogi sefydliadau i gyflawni'r hyn sydd wedi'i nodi, costau sy'n gysylltiedig â swyddfeydd, TGCh, costau rheoli, cyngor cyfreithiol ac yswiriant. Er enghraifft, nododd un darparwr cyngor a gwblhaodd ein harolwg, yn ôl ei brofiad ef, '[local authorities have] little recognition of need for full cost recovery' a nododd un arall, '[there is] no recognition of need for full cost recovery. No respect for third sector.'

23 Gorbenion yw cost weithredol darparu gwasanaeth gan gynnwys, er enghraifft, gostau rhent, cyfleustodau a threthi, ond heb gynnwys llafur a deunyddiau.

24 Ystyr adennill costau llawn yw bod sefydliad yn y trydydd sector yn cael arian i dalu'r costau uniongyrchol yr eir iddynt wrth ddarparu gwasanaeth a hefyd y gorbenion.

Ffigur 16 – Barn cynghorau gwirfoddol sirol ynghylch a yw awdurdodau lleol yn gweithredu model adennill costau llawn ar gyfer prosiect trydydd sector a ariennir ganddynt




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, County Voluntary Council Survey - Mai 2016

# Rhan 3

## Ni all awdurdodau lleol ddangos effaith eu gwaith gyda'r trydydd sector yn gyson

Diwrnod Chwilota ym Merthyr Mawr: Grŵp gwirfoddolwyr gwarchod sy'n cyfarfod yn rheolaidd gyda Diwrnodau Gwyrdd Innovate Trust yn Wild Spirit Bushcraft, lle roeddent yn dysgu am chwilota a chrefftau gwylltir ac yn coginio eu cinio eu hunain dros dân agored mewn yurt. Un o'r 15 llun uchaf yng Nghystadleuaeth Ffotograffiaeth Aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2016




3.1 Er mwyn cael y budd mwyaf o benderfyniadau ariannu, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir ar waith i reoli, gwerthuso a mesur perfformiad a chraffu arno. Mae gweithgarwch craffu effeithiol ar y trydydd sector yn seiliedig ar nifer o egwyddorion allweddol, sef: darparu hyfforddiant a chymorth i sefydliadau a datblygu systemau effeithlon i gasglu gwybodaeth sy'n gymesur; pennu safonau clir o ran yr hyn y mae'n ofynnol i sefydliadau yn y trydydd sector berfformio yn ei erbyn a sut y dylent wneud hynny; a sicrhau bod y prosesau cywir ar waith i graffu ar berfformiad a'i farnu. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried cadernid y trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith gan awdurdodau lleol i reoli ac adolygu perfformiad y trydydd sector a chraffu arno.

## Nid yw trefniadau awdurdodau lleol i fonitro ac adolygu perfformiad sefydliadau yn y trydydd sector bob amser yn gyson nac yn effeithiol

3.2 Mae Ffigur 17 yn crynhoi canfyddiadau ein harolwg o ddarparwyr cyngor ac, ar y cyfan, yn rhoi darlun cadarnhaol o'r systemau sydd wedi'u creu gan awdurdodau lleol i reoli a goruchwylio cyllid y trydydd sector. Nododd ychydig o dan 60% o sefydliadau yn y trydydd sector eu bod yn cael cymorth a hyfforddiant gan awdurdodau lleol ynglŷn â'r ffordd y caiff eu gwasanaethau eu monitro a'u gwerthuso. At hynny, ymatebodd dros 80% o sefydliadau cyngor yn y trydydd sector yn gadarnhaol gan nodi bod awdurdodau lleol yn pennu amcanion clir a phriodol er mwyn barnu perfformiad pan gytunir ar gontractau ac y'u llofnodir. At hynny, roedd 80% o'r sefydliadau a ymatebodd i'r arolwg o'r farn bod y data y mae'n ofynnol iddynt eu casglu a'u cyflwyno i awdurdodau lleol yn gymesur â gwerth eu contract. Gyda'i gilydd, mae sylwadau'r sefydliadau cyngor yn y trydydd sector yn awgrymu bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn pennu safonau clir i ddarparwyr cyngor berfformio yn eu herbyn ac yn gweithredu systemau cytbwys a phriodol i reoli a gwerthuso perfformiad y trydydd sector a chraffu arno.

3.3 Fodd bynnag, o'u cymharu â darparwyr cyngor, mae cynghorau gwirfoddol sirol yn llai cadarnhaol ynghylch trefniadau awdurdodau lleol. Mae Ffigur 18 yn crynhoi canfyddiadau ein harolwg o gynghorau gwirfoddol sirol ac yn dangos bod barn partneriaid ar effeithiolrwydd systemau awdurdodau lleol ar gyfer rheoli a goruchwylio cyllid y trydydd sector yn amrywio'n fawr. Nododd saith cyngor gwirfoddol sirol fod eu hawdurdodau lleol yn darparu cymorth a hyfforddiant i sefydliadau yn y trydydd sector mewn perthynas â systemau ar gyfer monitro a gwerthuso eu gwaith ond nododd wyth nad yw hyn yn digwydd ac nid oedd tri yn gwybod. Nododd 12 o'r awdurdodau lleol gwirfoddol sirol fod awdurdodau lleol yn nodi'r data a'r wybodaeth arall y mae'n ofynnol i sefydliadau yn y trydydd sector eu darparu ar ddechrau trefniadau ariannu. Fodd bynnag, nododd tri nad yw eu hawdurdodau lleol yn gwneud hynny ac nid oedd pedwar yn gwybod. Dim ond saith cyngor gwirfoddol sirol a nododd fod y data y mae'n ofynnol i sefydliadau yn y trydydd sector eu casglu a'u cyflwyno yn gymesur â gwerth y contract neu'r grant. Nid oedd wyth cyngor gwirfoddol sirol yn cytuno ac nid oedd pedwar yn gwybod.


Ffigur 17 – Sylwadau darparwyr cyngor ar ofynion trefniadau rheoli perfformiad awdurdodau lleol




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Advice Providers Survey, Mai 2016

3.4 Gyda'i gilydd, mae sylwadau cynghorau gwirfoddol sirol yn awgrymu, er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn nodi'n glir pa ddata y mae'n ofynnol i sefydliadau eu casglu, y gallai awdurdodau lleol wneud mwy i sicrhau bod y data y mae'n ofynnol eu casglu yn gymesur ac yn hydrin i'r trydydd sector. At hynny, mae angen i awdurdodau lleol hefyd wella eu cymorth a'u gweithgarwch ymgysylltu â sefydliadau yn y trydydd sector er mwyn sicrhau bod ganddynt yr adnoddau priodol i chwarae rhan lawn yn y gwaith o fonitro a gwerthuso perfformiad.


Ffigur 18 – Sylwadau cynghorau gwirfoddol sirol ar ofynion trefniadau rheoli perfformiad awdurdodau lleol




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, County Voluntary Councils Survey, Mai 2016

3.5 Maent yn nodi bod diffyg cymorth a hyfforddiant yn fater hollbwysig i awdurdodau lleol ei ystyried pan fyddant yn edrych ar allu a sgiliau sefydliadau yn y trydydd sector. Nodwyd gennym nad yw nifer o awdurdodau lleol yn hysbysu cyrff yn y trydydd sector am y wybodaeth allweddol sydd ei hangen arnynt i farnu effeithiolrwydd a pherfformiad y gwasanaethau a gomisiynir ganddynt ychwaith. Mewn rhai achosion, mae cyfyngiadau o ran fframweithiau mesur perfformiad a threfniadau adrodd awdurdodau lleol ar gyfer sefydliadau yn y trydydd sector wedi arwain at sefyllfa lle nad yw rhai sefydliadau yn y trydydd sector yn cyflwyno adroddiadau ar eu perfformiad am sawl blwyddyn. Mae hyn yn cyferbynnu â sylwadau sefydliadau eraill a nododd fod trefniadau adrodd a chasglu data yn rhy feichus ac nad oeddent bob amser yn ystyrlon nac yn briodol – Ffigur 19.

Ffigur 19 – Sylwadau darparwyr cyngor yn y trydydd sector ar brosesau awdurdodau lleol ar gyfer rheoli ac adolygu eu perfformiad




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Advice Providers Survey, Mai 2016

3.6 Ar sail ein hadolygiad o ddogfennau ar gyfer pob un o'r 22 o awdurdodau lleol, aseswyd bod chwech wedi sefydlu'r hyn a ystyriwn yn drefniadau effeithiol ar gyfer monitro, adolygu a gwerthuso perfformiad sefydliadau yn y trydydd sector. O dan yr amgylchiadau hyn, mae awdurdodau lleol wedi nodi'r wybodaeth roedd angen iddynt ei chael gan sefydliadau yn y trydydd sector ac wedi datblygu prosesau clir a syml i gasglu data gan y trydydd sector. Prin oedd y bylchau mewn gwybodaeth a nodwyd gennym ac, ar y cyfan, roedd y data a ddarparwyd yn canolbwyntio'n bennaf ar farnu perfformiad yn erbyn y nod o gyflawni amcanion strategol yr awdurdod lleol. Yn gyffredinol, roedd y data a'r manylion a oedd yn cael eu darparu, ac amlder y cyflwyniadau, yn briodol â maint a hyd y contractau a oedd yn cael eu monitro, yn ein barn ni. Mae rhai gwasanaethau, yn enwedig Cefnogi Pobl a Gofal Cymdeithasol, hefyd wedi datblygu systemau monitro â disgwyliadau cliriach a systemau adolygu o ansawdd gwell, sy'n rhywbeth a ategwyd gan ymatebwyr i'n harolygon. O ran yr 16 o awdurdodau eraill, darparodd 11 dystiolaeth eu bod yn ymdrin â rhai o'r elfennau hyn, ond roedd bylchau yn eu prosesau ac roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y pump a oedd yn weddill o ran eu dulliau gweithredu yn wael neu'n annigonol ac roedd bylchau sylweddol yn eu prosesau.

3.7 Nododd rhai sefydliadau yn y trydydd sector, gan nad oedd awdurdodau lleol yn nodi eu gofynion o ran adrodd a gwerthuso, eu bod wedi dewis cyflwyno adroddiadau rheoli mewnol er mwyn rhoi rhyw fath o sicrwydd i'r rhai sy'n eu hariannu ynglŷn â sut mae eu gwasanaethau yn perfformio. Er y bydd adroddiadau rheoli mewnol o ddiddordeb i awdurdodau lleol, ni fydd y wybodaeth yn canolbwyntio'n benodol ar ddangos sut mae'r sefydliad yn y trydydd sector, o reidrwydd, yn cyflawni blaenoriaethau'r awdurdod lleol ar gyfer yr arian. Mae adroddiadau rheoli mewnol hefyd wedi'u datblygu er mwyn bodloni gofynion adrodd a rheoli perfformiad penodol y sefydliad ac arianwyr elusennau, nid awdurdodau lleol, ac felly maent yn annhebygol o roi sicrwydd digonol bod gwasanaethau yn cyflawni amcanion ariannu awdurdodau lleol.

3.8 Os yw trefniadau monitro a gwerthuso awdurdodau lleol yn anghyson ac yn aneffeithiol ni fydd y trydydd sector bob amser yn glir ynghylch yr hyn sydd ei angen a'r ffordd orau y gall ddangos effaith gadarnhaol ei waith. Mae trefniadau rheoli perfformiad gwael hefyd yn gwanhau atebolrwydd ac yn cyfyngu ar allu aelodau etholedig i graffu ar weithgarwch.

## Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi pennu mesurau i'w galluogi i farnu effaith eu gwaith gyda'r trydydd sector yn gyson


3.9 Mae a wnelo monitro ac adolygu perfformiad â chasglu gwybodaeth ac asesu i ba raddau y mae cyllid y trydydd sector wedi cyflawni ei amcanion. Bydd asesu perfformiad yn effeithiol hefyd yn helpu awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector i wella'r modd y rheolir cyllid y trydydd sector, ehangu atebolrwydd am berfformiad a gwariant a datblygu polisïau. Mae pennu dangosyddion gwael yn ei gwneud yn anodd i awdurdodau lleol farnu gwerth gwirioneddol y gwasanaethau y maent yn eu hariannu ac effaith gwaith sefydliadau yn y trydydd sector. Mae prosesau cadarn ond syml sy'n sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng casglu popeth a dim byd yn allweddol er mwyn gallu craffu ar berfformiad yn effeithiol.

3.10 Drwy ein gwaith maes a'n gwaith i adolygu dogfennau, aseswyd ansawdd a chwmpas mesurau a sefydlwyd gan awdurdodau lleol i farnu effaith gwasanaethau'r trydydd sector. Aseswyd bod 10 awdurdod yn dangos arfer da drwy roi mesurau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gan y trydydd sector ar eu rhan yn gweithio. Cysylltodd yr awdurdodau a oedd yn perfformio orau fesurau perfformiad ar gyfer sefydliadau yn y trydydd sector â blaenoriaethau corfforaethol a chynlluniau strategol yr awdurdod er mwyn iddynt allu barnu'r effaith y mae eu buddsoddiad wedi'i chael. Nodwyd gennym hefyd fod rhai gwendidau yn systemau gwybodaeth rheoli perfformiad pedwar awdurdod arall ac mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau bod mesurau priodol ar waith er mwyn iddynt allu barnu perfformiad. Aseswyd bod gan yr wyth awdurdod sy'n weddill fesurau perfformiad gwael neu annigonol, sy'n golygu na allant herio perfformiad na chraffu arno'n effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn awdurdodau lle mae penderfyniadau ynghylch ariannu'r trydydd sector yn dal i gael eu rheoli gan adrannau unigol, sy'n golygu bod ansawdd a chadernid arferion gwaith yn amrywio'n fawr. Yn yr un modd, nodwyd gennym wendidau o ran y ffordd y caiff arian grant ei werthuso, a gwelsom dystiolaeth bod rhai awdurdodau lleol yn dal i roi arian i sefydliadau yn y trydydd sector heb fawr ddim mesurau perfformiad ynghlwm wrth yr arian, os o gwbl.

3.11 Mae Ffigur 20 yn crynhoi canfyddiadau ein harolwg o gynghorau gwirfoddol sirol ynghylch y meini prawf a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i fonitro a gwerthuso eu gwaith gyda sefydliadau yn y trydydd sector. Dengys yr ymatebion fod awdurdodau lleol yn dibynnu'n fwy ar gyflawni targedau prosiectau nag ar ansawdd y gwasanaeth a phrofiad y defnyddiwr ac mae llawer o awdurdodau lleol yn dal i ganolbwyntio ar allbynnau yn bennaf nid canlyniadau.

3.12 Lle y cesglir data, roedd rhai cynghorau gwirfoddol sirol o'r farn nad oes gan lawer o'r wybodaeth fawr ddim perthnasedd i'r broses o farnu effeithiolrwydd gwasanaethau. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y trydydd sector o'r farn bod llawer o sefydliadau yn y trydydd sector yn canolbwyntio ar fonitro canlyniadau ac olrhain y gwahaniaeth a wnaed i ddefnyddwyr gwasanaethau. Yn yr un modd, dim ond pedair o'r 33 o asiantaethau cyngor a gwybodaeth a ymatebodd i'n harolwg a nododd fod awdurdodau lleol yn pennu mesurau canlyniadau priodol ar gyfer y gwasanaethau cyngor a gwybodaeth yn y trydydd sector a ariennir ganddynt er mwyn iddynt allu barnu gwelliant dros amser.

Ffigur 20 – Barn cynghorau gwirfoddol sirol ar y meini prawf a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i farnu perfformiad sefydliadau yn y trydydd sector




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, County Voluntary Councils Survey, Mai 2016

3.13 Cysylltodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yr arian roedd yn ei roi i sefydliadau yn y trydydd sector â chanlyniadau ac mae wedi llunio cyfres o fesurau er mwyn cyfrifo'r Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI), a ddefnyddir fel canllaw er mwyn helpu gwneuthurwyr penderfyniadau i nodi ble y dylid dyrannu arian er mwyn cael y budd mwyaf posibl o'u buddsoddiad – Ffigur 21. Mae awdurdodau lleol eraill, gan gynnwys Sir Benfro, hefyd wedi dechrau defnyddio cymalau budd i'r gymuned o fewn eu prosesau caffael. Mae'r cymalau hyn yn aml yn canolbwyntio ar ddatblygu buddiannau ehangach i gymunedau lleol drwy ddarparu gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer trigolion.

**Ffigur 21 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad**

Mae'r SROI yn galluogi'r awdurdod lleol i leihau'r arian grant y mae'n ei roi i'r trydydd sector mewn ffordd deg ac ar sail y sefydliadau hynny a oedd gwneud y defnydd gorau o'r arian grant a gânt ar gyfer y gymuned a'r awdurdod lleol.

Cyfrifir yr SROI drwy nodi'r gost y pen yn seiliedig ar nifer y bobl sydd wedi cysylltu â'r sefydliad wedi'i rhannu wedyn â nifer yr effeithiau cymdeithasol a ddarperir gan y gwasanaeth; mae hyn yn rhoi gwerth y pen. Wedyn rhennir gwerth y pen â nifer y blaenoriaethau yn y cynllun corfforaethol lle mae'r gwasanaethau yn cyflawni canlyniadau. Mae hyn wedyn yn rhoi ffigur y pen ar gyfer yr SROI i'r awdurdod lleol. Po isaf yw'r gost y mwyaf yw'r gwerth am arian a sicrheir mewn perthynas ag effeithiau cymdeithasol.


Rhannwyd y cyfrifiad â'r cyngor gwasanaethau gwirfoddol lleol a sefydliadau lleol yn y trydydd sector er mwyn sicrhau bod pawb yn deall y cyfrifiad a'r ffordd y câi ei ddefnyddio. Sefydlodd yr awdurdod lleol grŵp i werthuso'r sefydliadau a oedd yn defnyddio'r SROI. Roedd aelodau'r grŵp yn cynnwys yr aelod gweithredol a oedd yn gyfrifol am arian grant ac aelodau etholedig eraill o'r awdurdod lleol er mwyn creu panel cynghori ar grantiau. Defnyddiodd yr awdurdod lleol yr SROI i raddio'r sefydliadau a llwyddodd y rhai a gafodd ffigur cost isel i barhau i gael eu hariannu.

## Nid yw trefniadau craffu a rheoli risg ar gyfer gwerthuso a goruchwylio cyllid y trydydd sector bob amser yn addas nac yn effeithiol

3.14 Gall pwyllgorau craffu chwarae rôl allweddol o ran goruchwylio'r modd yr ariennir gwasanaethau'r trydydd sector er mwyn herio tanberfformiad, dwyn sefydliadau i gyfrif a nodi cyfleoedd i wella. Dylai pwyllgorau craffu awdurdodau lleol oruchwylio gwasanaethau a roddir ar gontract i sefydliadau yn y trydydd sector yr un mor drylwyr ag y byddent yn goruchwylio'r rhai a ddarperir yn uniongyrchol gan yr awdurdod ei hun. Gwelsom rai enghreifftiau o ddatblygu arfer lle mae trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer craffu ar eu prosesau ar gyfer ariannu'r trydydd sector yn gwella. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae Pwyllgor Polisi ac Adnoddau'r awdurdod lleol wedi chwarae rhan lawn mewn adolygiad o'r modd yr ariennir y trydydd sector. O ganlyniad i'r adolygiad, mae'r aelodau etholedig yn deall manteision a heriau gwaith yr awdurdod lleol gyda'r trydydd sector yn well ac wedi nodi cyfleoedd i wella sgiliau'r aelodau etholedig er mwyn sicrhau bod gweithgarwch craffu yn fwy effeithiol yn y dyfodol. Fodd bynnag, nodwyd gennym, yn gyffredinol, fod craffu ar berfformiad y trydydd sector yn faes gwaith sy'n peri problemau i rai awdurdodau lleol.

3.15 Mae ymatebion i'n harolwg o gynghorau gwirfoddol sirol yn mynegi pryderon ynghylch y gwaith craffu y mae awdurdodau lleol yn ei wneud wrth oruchwylio a herio perfformiad gwasanaethau yn y trydydd sector fel y nodir yn Ffigur 22. Cydnabu ychydig o dan hanner y cynghorau gwirfoddol sirol a ymatebodd fod sefydliadau yn y trydydd sector yn cael eu cynrychioli ar gyrff goruchwylio a chraffu. Fodd bynnag, dim ond chwech o'r 19 o gynghorau gwirfoddol sirol a ymatebodd i'n harolwg a oedd o'r farn bod pwyllgorau craffu yn galluogi aelodau i herio a gwella'r ffordd y mae eu hawdurdod lleol yn gweithio gyda sefydliadau yn y trydydd sector a dim ond un a nododd fod aelodau etholedig yn gwerthuso gwaith y trydydd sector yn rheolaidd.

Ffigur 22 – Sylwadau cynghorau gwirfoddol sirol ar drefniadau craffu awdurdodau lleol




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, County Voluntary Councils Survey, Mai 2016

3.16 Mae canfyddiadau ein cais am dystiolaeth yn adlewyrchu sylwadau cynghorau gwirfoddol sirol ac yn dangos nad yw trefniadau ar gyfer adolygu perfformiad y trydydd sector a chraffu arno yn cael eu defnyddio'n gyson. Dim ond 14 o'r 56 o sefydliadau a ymatebodd a deimlai fod trefniadau monitro awdurdodau lleol ar gyfer prosiectau'r trydydd sector yn effeithiol. Ymhlith y gwendidau cyffredin a nodwyd gan sefydliadau yn y trydydd sector roedd:

- prosesau monitro anghyson fewn adrannau awdurdodau lleol a rhyngddynt;
- y ffaith nad yw gwybodaeth a ddarparwyd gan sefydliadau yn y trydydd sector yn cael ei defnyddio gan awdurdodau lleol wrth adolygu prosiectau;
- prosesau yn gosod gormod o faich ar sefydliadau yn y trydydd sector; ac
- adnoddau cyfyngedig o fewn awdurdodau lleol i gynnal adolygiadau yn amserol.

3.17 Nodwyd gennym fod y cyfrifoldeb am graffu ar brosesau ariannu'r trydydd sector yn aml wedi'i ddatganoli i'r pwyllgorau craffu pwnc-benodol unigol. Drwy roi'r cyfrifoldeb am weithgarwch craffu i bwyllgorau unigol, yn aml nid oes gan awdurdodau lleol drosolwg canolog na chorfforaethol o'r holl drefniadau ar gyfer ariannu'r trydydd sector sydd ar waith o fewn yr awdurdod. O ganlyniad, mae'n bosibl na fydd awdurdod yn gallu nodi meysydd lle y gallai fod achosion o ddyblygu ac y bydd yn colli cyfleoedd i sicrhau bod eu prosesau ar gyfer ariannu gwasanaethau yn y trydydd sector yn fwy effeithlon yn y dyfodol. Felly, mae angen i awdurdodau lleol wella'r modd y maent yn casglu, yn rheoli, yn rhannu ac yn dadansoddi data er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth gywir i wneud penderfyniadau a deall yr effaith y gallai'r penderfyniadau hyn eu cael ar yr awdurdod lleol, sefydliadau yn y trydydd sector a defnyddwyr gwasanaethau yn glir.

3.18 Mae gwaith rheoli risg yn rhan bwysig o drefniadau craffu a goruchwylio awdurdodau lleol ac, os caiff ei wneud yn dda, gall roi sicrwydd i awdurdodau lleol fod y risg y bydd mathau penodol o ddigwyddiadau yn digwydd neu'n cael effaith ar fusnes yr awdurdod lleol wedi cael ei leihau neu ei dileu. Mae gwaith rheoli risg effeithiol yn broses ar gyfer nodi, asesu a blaenoriaethu gwahanol fathau o risgiau ac, ar ôl i'r risgiau gael eu nodi, lunio cynllunio i leihau neu ddileu effaith digwyddiadau negyddol. Mae angen i awdurdodau lleol ystyried amrywiaeth o risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio gyda'r trydydd sector; gallant gynnwys risgiau i enw da sefydliad a risgiau ariannol.

3.19 Nododd ein gwaith maes nad yw awdurdodau lleol bob amser yn ystyried risg yn eu gwaith gyda'r trydydd sector. O'r chwe awdurdod lleol yr ymwelwyd â hwy, dim ond un a oedd â phroses glir i asesu'n benodol y risg sy'n gysylltiedig ag ariannu sefydliadau yn y trydydd sector. Dywedodd un awdurdod lleol wrthym fod barn broffesiynol uwch swyddogion yn cael ei defnyddio i farnu risg, ond nad oedd gan y dull hwn o weithredu unrhyw system ffurfiol i asesu a lliniaru risg yn gyson am nad yw gwybodaeth yn cael ei chofnodi na'i rheoli ac am ei fod yn asesiad o risg ar

adeg benodol nad yw'n defnyddio unrhyw feini prawf y cytunwyd arnynt. Lle mae hanes o gaffael gwasanaethau, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol, nodwyd gennym brosesau mwy sefydledig sy'n canolbwyntio'n fwy ar gofnodi risgiau mewn cofrestrau ffurfiol sy'n cael eu hadolygu ac sy'n destun camau lliniaru.

3.20 Yn Sir y Fflint, roedd y gwasanaeth archwilio mewnol wedi nodi bod ariannu sefydliadau gofal cymdeithasol yn y trydydd sector yn faes y dylid canolbwyntio arno. Nododd adolygiad y tîm archwilio mewnol, a gyhoeddwyd yn 2015, fod angen gwella'r amgylchedd rheoli'n sylweddol er bod sawl maes yn cael eu rheoli'n dda gan yr awdurdod lleol, gan gynnwys cydberthnasau rhwng yr awdurdod lleol a'r trydydd sector a datblygu manylebau gwasanaethau ar y cyd. Nododd yr adroddiad fod rheolaethau allweddol i'w cael ond nad oeddent yn mynd i'r afael â phob risg a nodwyd a/neu nad oeddent yn cael eu defnyddio'n gyson nac yn effeithiol. Gwnaeth y tîm archwilio nifer o argymhellion ar gyfer gwella roedd yr awdurdod lleol wrthi'n eu gweithredu pan ymwelwyd ag ef.



Cerddwyr gwirfoddol blaen yn arwain y ffordd ar Dro Nos Da Gofal Canser Tenovus yn 2014. Yn ystod y digwyddiad hwn mae cannoed o gerddwyr yn goleuo'r noson i gofio a dathlu bywydau'r rhai sy'n annwyl iddynt ac sydd wedi'u heffeithio gan ganser, a byddai hyn yn amhosibl heb gymorth y gwirfoddolwyr gwych. Un o'r 14 llun uchaf yng Nghystadleuaeth Ffotograffiaeth Aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2014.

Ffynhonnell: WCVA

Rhan 4

# Mae disgwyliadau newidiol o ran yr hyn y mae'n ofynnol i'r trydydd sector ei gyflawni yn cynnig cyfleoedd ac yn cyflwyno risgiau y mae angen eu rheoli'n ofalus er mwyn i'r buddiannau disgwyliedig gael eu cyflawni

Gwirfoddolwyr ifanc Ferndale Grassroots yn ymlacio ar ôl gweithio'n galed ger y pwll sydd newydd gael ei greu uwchben Rhondda Fach. Daeth y llun hwn yn ail yng Nghystadleuaeth Ffotograffiaeth Aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2016



4.1 Gan fod disgwyl i gyllid y sector cyhoeddus barhau i ostwng yn y dyfodol agos, mae Llywodraeth Cymru (ac awdurdodau lleol) wedi manteisio ar y cyfle i ailddiffinio gwasanaethau cyhoeddus gan ganolbwyntio ar ddulliau cynaliadwy ac ataliol newydd o ddarparu gwasanaethau. O fewn newidiadau deddfwriaethol diweddar a diwygiadau arfaethedig, mae rôl gynyddol i'r trydydd sector wedi'i nodi. Yn y rhan olaf hon o'r adroddiad, rydym yn ystyried y cyfleoedd a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag agenda newydd trydydd sector cryfach a symlach.

4.2 Mae'r wasgfa ar wariant y llywodraeth wedi hoelio sylw llunwyr polisi ar rôl cyfranogiad gwirfoddol a'r trydydd sector o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus, sydd wedi arwain at fwy o graffu ar brosesau ariannu a'r angen i ddeall sut y gall cymunedau gyfranogi mewn gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy. Mae'r newid hwn mewn polisi tuag at gydgynhyrchu yn tybio y gall lefelau gwirfoddoli, gweithgarwch y trydydd sector a'i ddosbarthiad ym mhob ardal ateb y galw cynyddol am wasanaethau cyhoeddus yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwyso hyn â dibyniaeth y trydydd sector yng Nghymru ar arian cyhoeddus sydd wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf sy'n golygu bod angen i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill geisio sicrhau bod pob punt a fuddsoddir yn dod â'r manteision mwyaf posibl.

4.3 Er mwyn i'r trydydd sector fod yn gwbl effeithiol mae angen iddo allu cystadlu i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd deg. Felly, mae meithrin gallu o fewn y trydydd sector er mwyn sicrhau y gall cymaint o sefydliadau â phosibl gymryd rhan mewn prosesau ariannu strategol yn un o rolau pwysig awdurdodau lleol. Yn ddiweddar cyflogodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen Swyddog Grantiau a Datblygu Cymunedol a fu'n gweithio gyda sefydliadau yn y trydydd sector er mwyn eu helpu i wella'r ffordd y maent yn gweithio gyda gwasanaethau ariannu'r awdurdod lleol, yn eu rheoli ac yn eu hadolygu. Drwy'r gwaith hwn, mae'r Swyddog Grantiau a Datblygu Cymunedol yn helpu sefydliadau yn y trydydd sector i weithio gyda'r awdurdod lleol, ond mae hefyd yn sicrhau bod arian yr awdurdod lleol yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.

4.4 Cydnabu rhai ymatebwyr i'n cais am dystiolaeth, er nad oes gan lawer o sefydliadau yn y trydydd sector yr adnoddau, y sgiliau, yr amser na'r arbenigedd sydd eu hangen er mwyn gwneud cais am gontractau awdurdodau lleol yn aml, nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio hybu ac annog datblygiad a thwf eu trydydd sector lleol. Yn benodol, mae sefydliadau lleol a chymunedol llai o faint yn y trydydd sector yn ei chael hi'n anodd iawn parhau i ddatblygu a bodloni gofynion newydd a mwy beichus awdurdodau lleol.

4.5 Nodwyd gennym nad oedd prosesau caffael awdurdodau lleol bob amser yn helpu'r trydydd sector lleol. Oherwydd gwerth ariannol y contractau, bu'n rhaid i lawer ohonynt ddilyn y gweithdrefnau caffael llym. Roedd rhai sefydliadau o'r farn bod hyn wedi'u hatal rhag gwneud cais am gyfleoedd. Roedd rhai awdurdodau lleol, drwy'r cyngor gwirfoddol sirol, wedi darparu cyfarfodydd gwybodaeth lle yr eglurwyd pob cam o'r broses i sefydliadau ac y dangoswyd iddynt sut roedd yn gweithio, ac mewn rhai achosion, roedd awdurdodau lleol yn gallu dangos bod sefydliadau yn y trydydd sector wedi llwyddo mewn proses ceisiadau gystadleuol o ganlyniad i'r hyfforddiant. Fodd bynnag, nid yw cyfnewid gwybodaeth yn datrys y broblem sy'n ymwneud â gallu ac arbenigedd yn y trydydd sector ac mae hyn yn fater y mae angen i awdurdodau lleol ei ystyried yn eu prosesau ariannu strategol.

4.6 Neges gref o'n gwaith ymchwil yw, er bod cefnogi'r trydydd sector er mwyn ei alluogi i wneud cais am gontractau yn hanfodol, fod darparu hyfforddiant a chymorth i'r rhai o fewn awdurdodau lleol sy'n ymwneud ag ariannu gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn mabwysiadu ac yn defnyddio arferion priodol a chymesur yr un mor bwysig. Prin iawn yw'r awdurdodau lleol sydd ag aelodau o staff a gyflogir yn benodol i weithio gyda'r trydydd sector a'i ddatblygu a hyd yn oed lle mae swyddogion dynodedig sy'n bennaf cyfrifol am annog a datblygu capasiti'r trydydd sector, bydd y swyddogion hyn yn ei chael hi'n anodd deall amrywiaeth a chymhlethdod eu trydydd sector lleol.

4.7 Mae gweithio'n rhagweithiol gyda'r trydydd sector yn golygu mwy na meithrin gallu yn unig – mae hefyd yn rhagofyniad i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael y budd gorau posibl o'u buddsoddiad drwy ymgysylltu â marchnad y trydydd sector lleol. Felly, mae dealltwriaeth dda o'r farchnad leol yn hanfodol er mwyn i awdurdodau lleol sicrhau'r manteision mwyaf posibl a allai ddeillio o'r trydydd sector. Felly, er mwyn deall y farchnad yn llawn, mae angen i awdurdodau lleol gydnabod ei hamrywiaeth, ei natur gystadleuol gynhenid, faint o bŵer sydd gan yr awdurdod lleol drwy sefydliadau ariannu a'r ffordd y mae penderfyniadau yn dylanwadu ar ddatblygiad marchnad y trydydd sector yn y dyfodol.

4.8 Mae rheoli'r farchnad yn rhagweithiol hefyd yn hanfodol i sicrhau bod dyheadau penderfyniadau polisi diweddar a newydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau'r holl fanteision arfaethedig. Mae Ffigur 23 yn crynhoi tair cyfarwyddeb bolisi gan Lywodraeth Cymru sy'n dangos bod gan y trydydd sector rôl gynyddol i'w chwarae.

4.9 Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oes gan awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector ddealltwriaeth glir bob amser o faint o gystadleuaeth sydd mewn meysydd gwasanaeth gwahanol ac mae'r newid yn y dull ariannu a nodwyd uchod – o grantiau i gontractau ar gyfer gwasanaethau – wedi newid y gydberthynas ariannu rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Wrth wraidd y newid hwn o grantiau i gontractau ar gyfer gwasanaethau mae newid mewn tybiaethau: o un sy'n ystyried bod arian awdurdodau lleol yn ffordd o helpu'r trydydd sector i gyflawni ei gynlluniau a'i flaenoriaethau ei hun, i un sy'n ystyried bod y trydydd sector yn rhan o ddull ehangach o gyflawni cynlluniau a blaenoriaethau

**Ffigur 23 – Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod gan y trydydd sector rôl gynyddol i'w chwarae o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus**

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** (Deddf 2014) yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant oedolion a phlant sy'n agored i niwed, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Nod Deddf 2014 yw mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â newid demograffig a chodi disgwyliadau'r rhai sy'n cael gofal a chymorth. Cyfeirir at rôl y trydydd sector sawl gwaith yn Neddf 2014 ac mae Adran 16(1) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i helpu mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol a sefydliadau yn y trydydd sector i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol yn eu hardal. Mae Deddf 2014 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol newid y ffordd y maent yn gweithio gydag unigolion er mwyn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau llesiant. Yn gyntaf drwy ofyn 'beth sy'n bwysig iddyn nhw?' ac yn ail drwy wneud yn fawr o'u rhwydweithiau cymorth eu hunain a manteisio ar adnoddau cymunedol a gwirfoddol, sy'n hanfodol i gyflawni nodau Deddf 2014. Mae'r trydydd sector yn allweddol i hyrwyddo'r newid hwn mewn diwylliant.

Yn yr un modd, mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** (Deddf 2015) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus arddel safbwynt hirdymor sy'n seiliedig ar bum thema hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys. Bydd angen i awdurdodau lleol yng Nghymru fod yn ymwybodol o'r gofynion hyn ac, yn benodol, yr amcanion a bennir gan eu byrddau gwasanaethau cyhoeddus lleol. Mae'n rhaid i bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus lunio cynllun llesiant lleol, gan nodi sut y bydd ei ardal yn cyflawni'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a amlinellir yn Neddf 2015, a gwahodd 'sefydliadau gwirfoddol perthnasol' i gymryd rhan ar y bwrdd. Er mai dim ond cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhwymo gan Ddeddf 2015, mae'n amlwg, er mwyn i awdurdod lleol gyflawni ei nodau llesiant, y bydd angen cymorth sectorau eraill arno, yn enwedig cyrff yn y trydydd sector.

Nododd y papur gwyn, **Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol**[25], fod gan sefydliadau yn y trydydd sector fwy o rôl i'w chwarae o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Nododd y papur gwyn gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus ac edrychodd ar rôl ehangach i'r trydydd sector mewn sawl maes, yn enwedig model carlam i awdurdodau lleol ariannu gwasanaethau drwy'r trydydd sector, mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydfuddiannol. Roedd y papur gwyn o blaid ehangu sefydliadau yn y trydydd sector gan eu galluogi i chwarae mwy o ran yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn uniongyrchol. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu ei hopsiynau i ddatblygu cynigion y papur gwyn ond mae'n dal i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod y trydydd sector yn chwarae rôl gynyddol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus.

25 Llywodraeth Cymru, Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Papur Gwyn, Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol, Chwefror 2015

awdurdodau lleol. Felly, ar lefel strategol, mae'r tybiaethau sy'n llywio penderfyniadau ariannu strategol wedi lleihau cyfraniad y trydydd sector at y gwaith o gynllunio gwasanaethau ac asesu anghenion ac wedi dileu'r cydberthnasau cystadleuol blaenorol (a fyddai'n aml yn galw am gyfrinachedd masnachol), gan roi cydberthnasau cydweithredol yn eu lle ymhlith cyrff yn y trydydd sector a rhwng cyrff yn y trydydd sector, cynghorau gwirfoddol sirol ac awdurdodau lleol.

4.10 Yn ddiweddar cynhaliodd CGGC adolygiad strategol er mwyn pennu gweledigaeth newydd a blaenoriaethau ar gyfer ei waith yn y blynyddoedd i ddod. Mae CGGC wedi gweithio gyda chynghorau gwirfoddol sirol i adolygu blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau cymorth rhanbarthol a chenedlaethol yn y trydydd sector. Mae CGGC wedi ystyried y risgiau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r trydydd sector yn y dyfodol a sut y gall y sector cyfan ymateb i'r rhain. Mae'r materion hyn yn cynnwys ffactorau amgylcheddol gan gynnwys newid yn yr hinsawdd; effeithiau economaidd ar gymdeithas ac unigolion; casglu a defnyddio data i lywio gwasanaethau ac effaith digideiddio cynyddol; newidiadau demograffig; a'r newidiadau i wasanaethau cyhoeddus a ddaeth yn sgil deddfwriaeth newydd.

4.11 Ymgynghorodd CGGC ar fframwaith strategol diwygiedig yn ystod hydref 2016 gan nodi ei nodau a'i flaenoriaethau strategol ar gyfer y dyfodol a'i egwyddorion sy'n sail i waith y trydydd sector. Mae CGGC yn cydnabod yr heriau y mae'r sector yn eu hwynebu a'r amrywiaeth o ymatebion y gallai'r sector eu cynnig i'r heriau hyn yn y blynyddoedd i ddod. Mae CGGC yn nodi, wrth i wasanaethau cyhoeddus newid yn y blynyddoedd i ddod, fod cyfleoedd a risgiau i'r sector. Ymhlith y risgiau mae mwy o gystadleuaeth am arian gan gyrff cyhoeddus eraill a hefyd y sector preifat ac ymhlith y cyfleoedd mae mwy o gydweithredu rhwng sefydliadau yn y trydydd sector wrth ddarparu gwasanaethau.

4.12 Ni ellir anwybyddu'r ffaith bod y trydydd sector yn wynebu nifer o heriau mawr, yn enwedig mewn perthynas â'i rôl, ei gylch gwaith, ei gyllid a'i statws mewn cymdeithas yng Nghymru. Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod y trydydd sector yn chwarae rôl gynyddol wrth hwyluso a darparu gwasanaethau cyhoeddus, a hynny fel mater o frys, yn ogystal â pharhau i gyflawni ei rôl yn eirioli dros ddinasyddion Cymru ac yn eu cynrychioli. Mae hefyd yn bwysig cydnabod y cyfraniad y mae'r trydydd sector yn ei wneud at amcanion strategol a statudol awdurdodau lleol a'r manteision economaidd a'r manteision o ran cyflogaeth mewn llawer o gymunedau yng Nghymru. Felly, er mwyn gwireddu'r dyheadau a gyflwynir gan gyfeiriad polisi datblygol Llywodraeth Cymru, bydd angen newid y ffordd y mae awdurdodau a chyrff cyhoeddus eraill yn gweithio gyda'r trydydd sector.

4.13 Mae angen datblygu cydberthnasau gwaith agosach rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector er mwyn sicrhau bod gan y trydydd sector yr adnoddau i chwarae rôl weithredol ac effeithiol mewn prosesau ariannu strategol yn ogystal â'r adnoddau a'r gallu i fodloni gofynion newydd a datblygol deddfwriaeth a blaenoriaethau polisi diweddar. Mae heriau sylweddol sydd â goblygiadau i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector, y mae angen ymdrin â hwy mewn modd penderfynol a thrwy roi arweiniad clir.

# Atodiadau

## Atodiad 1 - Methodoleg yr astudiaeth
## Atodiad 2 - Astudiaethau achos arfer da
## Atodiad 3 - Rhestr wirio i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymgysylltu â'r trydydd sector ac yn gweithio gydag ef yn effeithiol

Gwirfoddolwyr Step Up, Step Out yn cymryd camau ymlaen ac allan i gynorthwyo eu cymuned leol wrth greu llwybr ym Mharc Gwledig Loggerheads. Un o'r 15 llun uchaf yng Nghystadleuaeth Ffotograffiaeth Aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2015. Llun gan Graham Davies, gwirfoddolwr gyda'r Rhaglen Step Up, Step Out.



# Atodiad 1 - Methodoleg yr astudiaeth

## Adolygiad o lenyddiaeth

Rydym wedi adolygu ystod eang o ddogfennau a chyfryngau, gan gynnwys:

- dogfennau polisi a chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru
- cynlluniau a strategaethau awdurdodau lleol ar gyfer y trydydd sector ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol
- adroddiadau CGGC ar ariannu'r trydydd sector a luniwyd gan LGDU (Cymru)

## Dadansoddi data

Rydym wedi dadansoddi'r data y casglodd CGGC gan awdurdodau lleol am eu trefniadau ar gyfer ariannu gwasanaethau yn y trydydd sector. Gwnaeth yr LGDU y gwaith hwn ar ran CGGC yn 2001-02, 2003-04, 2009-10 a 2013-14. Mae'r ffurflenni a gyflwynwyd yn cynnwys gwybodaeth am 19 o'r 22 o awdurdodau lleol ac nid yw'n cynnwys gwybodaeth am Ynys Môn, Castell-nedd Port Talbot a Chasnewydd na chyflwynodd ffurflenni i'r LDGU. Nid oedd gan ffurflen 2009-10 unrhyw ddata ar gyfer pum awdurdod lleol – sef Ynys Môn, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd a Rhondda Cynon Taf. Er gwaethaf yr hepgoriadau hyn, y wybodaeth a gyhoeddwyd gan yr LGDU yw'r ffynhonnell fwyaf cynhwysfawr, cyson a diweddar o ddata ar lefel y cyllid a roddwyd gan awdurdodau lleol i sefydliadau yn y trydydd sector yng Nghymru o hyd. Nid yw'r data a gafwyd o ffurflenni unigol gan bob awdurdod wedi'u harchwilio er mwyn sicrhau eu bod yn gywir.

## Gwaith maes mewn awdurdodau lleol

Ymwelwyd â chwe awdurdod lleol yng Nghymru yn 2016. Roedd yr awdurdodau lleol a ddewiswyd yn cynrychioli cymysgedd o awdurdodau sydd wedi'u dosbarthu'n ddaearyddol ledled Cymru yn ogystal ag adlewyrchu lefelau gwahanol o gyllid i'r trydydd sector fel y'u cofnodwyd yn adroddiadau'r LGDU. Yr awdurdodau lleol hyn oedd:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Yn ystod yr ymweliadau, cyfwelwyd ag amrywiaeth o staff awdurdodau lleol, sefydliadau yn y trydydd sector ac aelodau.

## Arolygon

Cynhaliwyd nifer o arolygon ar-lein ac roedd cwmpas yr arolygon ynghyd â’r cyfraddau ymateb fel a ganlyn:

| Ymatebwyr i'r arolwg | Diben yr arolwg | Y gyfradd ymateb |
|---|---|---|
| Awdurdodau Lleol | Casglu sylwadau ar y meysydd canlynol:<br>• y dull strategol o ariannu gwasanaethau’r trydydd sector;<br>• sut mae’r dull gweithredu yn ystyried fframweithiau Llywodraeth Cymru;<br>• pa mor effeithiol yw prosesau cyfathrebu â’r trydydd sector;<br>• materion sy’n ymwneud â llywodraethu gan gynnwys rheoli risg;<br>• cymorth i sefydliadau yn y trydydd sector sy’n gwneud cais am arian;<br>• prosesau ariannu’r cyngor; a<br>• sut y caiff perfformiad sefydliadau yn y trydydd sector ei reoli, ei adolygu a’i werthuso. | Penaethiaid caffael ar gyfer y 22 o awdurdodau lleol a chafwyd wyth ymateb (36%). Oherwydd y gyfradd ymateb isel nid ydym wedi gwneud defnydd helaeth o’r arolwg yn yr adroddiad. |
| Cynghorau gwirfoddol sirol lleol | Casglu barn y trydydd sector ar y meysydd canlynol:<br>• dulliau strategol awdurdodau lleol o ariannu gwasanaethau’r trydydd sector;<br>• sut mae dulliau gweithredu awdurdodau lleol yn ystyried fframweithiau Llywodraeth Cymru;<br>• sut mae awdurdodau lleol yn cyfathrebu â’r trydydd sector;<br>• materion sy’n ymwneud â llywodraethu gan gynnwys rheoli risg;<br>• cymorth cynghorau i sefydliadau yn y trydydd sector sy’n gwneud cais am arian;<br>• prosesau ariannu awdurdodau lleol; a<br>• sut mae awdurdodau lleol yn rheoli, yn adolygu ac yn gwerthuso perfformiad sefydliadau yn y trydydd sector. | Y 19 o gynghorau gwirfoddol sirol, a chafwyd 20 o ymatebion, er bod un cyngor gwirfoddol sirol a ymatebodd hefyd yn ardal awdurdod lleol lle y buom yn gwneud gwaith maes ac wedi gofyn am iddo gael ei gyfweld yn hytrach na chwblhau’r arolwg. Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) yn cwmpasu pedwar awdurdod lleol (sef Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy a Chasnewydd). Holodd yr arolwg am ddull gweithredu’r awdurdodau lleol unigol a chafwyd tri ymateb gan ardal Gwent. Dim ond er mwyn cyflwyno safbwyntiau ar lefel Cymru gyfan rydym wedi defnyddio’r canfyddiadau. Ni fu’n bosibl i Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych ymateb i’r arolwg oherwydd ymddeoliad y Prif Weithredwr a adawodd ym mis Tachwedd a’r ffaith bod y Prif Swyddog Interim yn absennol o’r gwaith oherwydd salwch yn ystod y cyfnod hwnnw. Yr ardaloedd awdurdod lleol lle nad oes gennym unrhyw wybodaeth o’r arolygon yw Sir Ddinbych, Castell-nedd Port Talbot, Sir Fynwy a Chasnewydd. |

<table>
<tr><th>Ymatebwyr i'r arolwg</th><th>Diben yr arolwg</th><th>Y gyfradd ymateb</th></tr>
<tr><td>Asiantaethau gwybodaeth a chyngor</td><td>Casglu sylwadau asiantaethau gwybodaeth a chyngor yn y trydydd sector sy’n darparu gwasanaethau i awdurdodau lleol ar y meysydd canlynol:<ul><li>dulliau strategol awdurdodau lleol o ariannu gwasanaethau’r trydydd sector;</li><li>sut mae dulliau gweithredu awdurdodau lleol yn ystyried fframweithiau Llywodraeth Cymru;</li><li>sut mae awdurdodau lleol yn cyfathrebu â’r trydydd sector;</li><li>materion sy’n ymwneud â llywodraethu gan gynnwys rheoli risg;</li><li>cymorth awdurdodau lleol i sefydliadau yn y trydydd sector sy’n gwneud cais am arian</li><li>prosesau ariannu awdurdodau lleol; a</li><li>sut mae awdurdodau yn rheoli, yn adolygu ac yn gwerthuso perfformiad sefydliadau yn y trydydd sector.</li></ul></td><td>Canolbwyntiwyd ar wasanaethau gwybodaeth a chyngor am fod awdurdodau lleol yn rhoi cryn dipyn o arian i’r sefydliadau hyn ac am eu bod hefyd yn cwmpasu ystod eang o wasanaethau i’r cyhoedd. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad cenedlaethol o wasanaethau gwybodaeth a chyngor yn 2013 a wnaeth nifer o argymhellion. Ym mis Mawrth 2015 creodd Llywodraeth Cymru Rwydwaith Cyngor Cenedlaethol i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar ofynion polisi o ran gwella mynediad at wasanaethau gwybodaeth a chyngor o safon, mewn perthynas â’r gyfraith ar les cymdeithasol.<br><br>Arolygwyd asiantaethau cyngor a gwybodaeth ac ymatebodd 33 o sefydliadau i’r arolwg. O’r 33 o sefydliadau hyn, cafwyd 21 gan sefydliad cenedlaethol sydd â chontractau i ddarparu gwasanaethau ag 20 o awdurdodau lleol. Darparodd y sefydliadau hyn ymatebion, i’r graddau roedd hynny’n bosibl, ar gyfer pob un o’r 20 o awdurdodau lleol hyd at gwestiwn 30 ac wedyn cwblhaodd y sefydliad ambarél cenedlaethol gwestiynau 31 i 35. Dim ond er mwyn cyflwyno safbwyntiau ar lefel Cymru gyfan rydym wedi defnyddio’r canfyddiadau.</td></tr>
<tr><td>Cais am dystiolaeth i’r trydydd sector ehangach</td><td>Casglu sylwadau’r trydydd sector ar y canlynol:<ul><li>effeithiolrwydd systemau awdurdodau lleol ar gyfer cyhoeddi, dyfarnu, rheoli ac adolygu prosiectau trydydd sector;</li><li>gwaith partneriaeth presennol rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector;</li><li>pa mor effeithiol y mae awdurdodau lleol yn ariannu gwasanaethau’r trydydd sector;</li><li>sut mae trosglwyddo o arian grant i system lle y dyfernir mwy o gyllid i dalu am wasanaethau o dan gontract wedi effeithio ar sefydliadau yn y trydydd sector; ac</li><li>i ba raddau y mae’r arian y mae awdurdodau lleol yn ei roi i wasanaethau’r trydydd sector yn sicrhau’r manteision a’r canlyniadau arfaethedig.</li></ul></td><td>Hyrwyddwyd y cais am dystiolaeth i’r trydydd sector drwy CGGC a chynghorau gwirfoddol sirol lleol. Cafwyd 56 o ymatebion i’r cais hwnnw am dystiolaeth. Rydym wedi crynhoi themâu o’r cais am dystiolaeth.</td></tr>
</table>

# Atodiad 2 - Astudiaethau achos arfer da

## Sut rydym yn diffinio arfer da

Nodir isod y paramedrau a ddefnyddir gennym i farnu a ddylid cynnwys astudiaeth achos fel arfer da:

- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth y dangoswyd ei bod/fod yn effeithiol, wedi'i (h) ategu gan werthusiad cynhwysfawr.
- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth y dangoswyd ei bod/fod yn cyflawni canlyniadau llwyddiannus ac a ategir i ryw raddau gan ffynonellau data goddrychol a gwrthrychol.
- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth sydd wedi gweithio o fewn un sefydliad ac sy'n dangos addewid yn ystod ei chamau/gamau cynnar y bydd yn datblygu'n arfer sy'n cael effaith gynaliadwy hirdymor.
- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth a allai gael ei (d)dyblygu ymhlith sefydliadau eraill.
- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth sy'n sicrhau gwerth am arian. Diffinnir gwerth am arian fel gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau er mwyn sicrhau'r manteision arfaethedig.
- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth sy'n cyflawni arbedion/gostwng gwariant heb fawr ddim effaith ar berfformiad.

Yng nghorff yr adroddiad, nodwyd gennym y meysydd canlynol o arfer da:

- Cyngor Sir y Fflint – arolwg o'r modd yr ariennir y trydydd sector (tudalen 17)
- Cyngor Sir Caerfyrddin – cydgysylltu prosesau ariannu'r trydydd sector (tudalen 19)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot – gwaith partneriaeth gyda'r trydydd sector (tudalen 24)
- datganiadau gwasanaethau cymdeithasol o sefyllfa'r farchnad (tudalen 26)
- GAVO - meithrin gallu'r trydydd sector i gystadlu mewn ymarferion caffael (tudalen 28)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – canoli hawliadau grant gan y trydydd sector (tudalen 34)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – SROI (tudalen 58)

At hynny, rydym hefyd wedi nodi'r arfer trosglwyddadwy canlynol.

## Astudiaeth Achos 1 – Cyngor Sir Penfro – gweithio'n agos gyda'r trydydd sector

Roedd cost swmpgasgliadau mewn sir fawr, denau ei phoblogaeth bellach yn rhy ddrud i'r awdurdod lleol. Aeth y cyngor ati i chwilio am ateb heblaw am derfynu'r gwasanaeth a gweld a ellid ei ddarparu mewn ffordd wahanol. Roedd gan FRAME, sy'n elusen a menter gymdeithasol gofrestredig, ddiddordeb mewn ymgymryd â'r gwaith.

Mae FRAME yn darparu cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer pobl â phob math o anabledd a phobl yr ystyrir eu bod wedi'u hallgáu'n gymdeithasol, er mwyn eu galluogi i brofi eu gallu i weithio, meithrin sgiliau newydd a newid cyfeiriad yn eu bywydau. Darperir y cyfleoedd hyn drwy weithredu prosiect ailddefnyddio ac ailgylchu cymunedol sy'n targedu'r rhai sy'n profi effeithiau tlodi ac amddifadedd cymdeithasol yn Sir Benfro, gan ddarparu eitemau am gost isel iawn neu'n ddi-dâl i unigolion neu deuluoedd mewn argyfwng, yn ogystal â chynnig dodrefn ac eitemau cartref y gellir eu hailddefnyddio i'r cyhoedd.

Mae'r penderfyniad i roi'r gwaith i FRAME wedi dod â manteision eraill i'r awdurdod lleol, sef.

1. nid oes angen iddo dalu am y seilwaith i gasglu'r eitemau;
2. mae'n lleihau ei gostau tirlenwi; a
3. drwy weithio gyda FRAME mae'n annog pobl yr ystyrir eu bod wedi'u hallgáu'n gymdeithasol i ailymuno â chymdeithas a dibynnu llai ar fudd-daliadau lles a gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol.

Mae FRAME hefyd yn gweithio gydag Adran Addysg yr awdurdod lleol er mwyn helpu i gynnal a chadw darn bach o goetir a'i ddefnyddio i feithrin dealltwriaeth myfyrwyr ag ymddygiad heriol o'u hamgylchedd. Mae dull strategol yr awdurdod lleol o ariannu gwasanaethau wedi'i alluogi i wneud gorau o'r trydydd sector. Drwy sicrhau y caiff y ddogfennaeth dendro ei datblygu a bod iddi ffocws priodol, mae'r awdurdod lleol yn annog sefydliadau lleol i wneud cais am wasanaethau pwysig i ategu ei ddarpariaeth a datblygu rhagor o adnoddau.

Ers y gwaith maes ym mis Mawrth 2016, mae'r prosiect coetir wedi dod i ben (roedd y coetir wedi'i rentu ar brydles fer) ac mae FRAME yn gobeithio cynnal prosiect tebyg yn y dyfodol.

# Atodiad 3 - Rhestr wirio i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymgysylltu â’r trydydd sector ac yn gweithio gydag ef yn effeithiol

| Ardal | Ar waith | Yn cael ei ddatblygu | Ddim ar waith |
|---|---|---|---|
| **1. Trefniadau strategol** | | | |
| **Gweledigaeth** | | | |
| Mae gan yr awdurdoda lleol weledigaeth y cytunwyd arni ynglŷn â sut y bydd yn gweithio gyda'r trydydd sector sy'n cwmpasu pob gwasanaethau a'r holl gyllid a roddir i'r trydydd sector. | | | |
| Mae'r weledigaeth wedi'i rhannu â phob aelod perthnasol o staff yn yr awdurdod lleol ac fe'u deëllir ganddynt. | | | |
| Mae'r weledigaeth wedi'i rhannu â'r aelodau etholedig, mae wedi'i chymeradwyo ganddynt ac fe'u deëllir ganddynt. | | | |
| Mae'r weledigaeth wedi'i rhannu â'r cyngor gwirfoddol sirol lleol ac fe'i deëllir ganddo. | | | |
| Mae'r weledigaeth wedi'i dosbarthu i sefydliadau yn y trydydd sector sy'n gweithio gyda'r awdurdod lleol. | | | |
| **Dull corfforaethol** | | | |
| Mae gan yr awdurdod lleol ddull corfforaethol o weithio gyda’r trydydd sector sy’n cwmpasu pob adran a gwasanaeth. | | | |
| Mae’r dull corfforaethol yn troi’r weledigaeth gorfforaethol yn gamau gweithredu ymarferol. | | | |
| Mae'r awdurdod lleol wedi dynodi arweinydd corfforaethol ar gyfer y trydydd sector sy'n gyfrifol am oruchwylio a chydgysylltu'r holl gyllid y mae'r awdurdod lleol yn ei roi i'r trydydd sector. | | | |

| Ardal | Ar waith | Yn cael ei ddatblygu | Ddim ar waith |
|---|---|---|---|
| **Cytundeb** | | | |
| Mae gan yr awdurdod lleol gytundeb cyfredol â'r trydydd sector. | | | |
| Mae'r cytundeb yn nodi ac yn diffinio'r gydberthynas a'r hyn a ddisgwylir gan yr awdurdod lleol a'r trydydd sector pan fyddant yn cydweithio yn glir. | | | |
| Mae dealltwriaeth gyffredin rhwng yr awdurdod lleol a'r trydydd sector o'r hyn y gellir ei gyflawni drwy gydweithio. | | | |
| Mae'r cytundeb wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion yr ardal leol ac wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r trydydd sector. | | | |
| Caiff y cytundeb ei adolygu'n rheolaidd. | | | |
| Mae'r cytundeb yn ystyried arian a roddir i'r trydydd sector gan gyrff iechyd a chomisiynwyr yr heddlu a throseddu. | | | |
| **Cyngor gwirfoddol sirol** | | | |
| Mae'r awdurdod lleol a'r cyngor gwirfoddol sirol wedi cytuno ar gylch gwaith a chyfrifoldebau'r olaf yn ogystal â'i gyfyngiadau. | | | |
| Cytunwyd ar y ffordd y bydd cyngor gwirfoddol sirol yn cynrychioli'r trydydd sector a'r meysydd y bydd yn cynrychioli'r trydydd sector mewn perthynas â hwy. | | | |

| Ardal | Ar waith | Yn cael ei ddatblygu | Ddim ar waith |
|---|---|---|---|
| **Trefniadau partneriaeth** | | | |
| Nodir rôl y trydydd sector a chytunir arni ar bob partneriaeth a phwyllgor addas a gofynnol ar: | | | |
| • lefel gorfforaethol – yng ngwaith y partneriaethau strategol a'r pwyllgorau craffu corfforaethol; | | | |
| • lefel adrannol – mewn trefniadau partneriaeth penodol er mwyn cefnogi agendâu polisi ehangach o fewn meysydd diffiniedig; a | | | |
| • lefel gwasanaeth – ar bartneriaethau lleol a mentrau penodol a arweinir gan wasanaethau. | | | |
| **Deall ymgysylltu â'r trydydd sector** | | | |
| Mae gan yr awdurdod lleol gofnod canolog o'r holl arian a ddyfernir i sefydliadau yn y trydydd sector gan yr awdurdod lleol a gaiff ei ddiweddaru'n flynyddol. | | | |
| Mae'r awdurdod lleol yn coladu gwybodaeth ariannol ac yn cyflwyno adroddiad o leiaf unwaith y flwyddyn ar yr holl arian y mae wedi'i roi i'r trydydd sector sy'n dangos y canlynol: | | | |
| • pa sefydliadau a ariennir gan yr awdurdod lleol; | | | |
| • gwerth y contract; | | | |
| • pa systemau ariannu, naill ai grant neu gontractau, a ddefnyddiwyd; | | | |
| • hyd y contract; | | | |
| • pa adran/gwasanaeth sydd wedi contractio'r sefydliad trydydd sector; | | | |
| • y mesurau llwyddiant a bennwyd ar gyfer y gwaith; a | | | |
| • beth yw manteision arfaethedig y gwaith. | | | |

| Ardal | Ar waith | Yn cael ei ddatblygu | Ddim ar waith |
|---|---|---|---|
| **2. Prosesau ariannu** | | | |
| **Cynllunio gwasanaethau** | | | |
| Mae'r awdurdod lleol yn manteisio ar arbenigedd a gwybodaeth y trydydd sector wrth gynllunio gwasanaethau newydd i'w darparu gan y trydydd sector. | | | |
| Wrth gynllunio gwasanaethau, mae'r awdurdod lleol yn nodi'n glir: | | | |
| • y galw y mae'r gwasanaeth yn ei ateb; | | | |
| • sut mae wedi penderfynu ar y math o wasanaeth sydd ei angen arno; | | | |
| • a oes angen atebion arloesol; a | | | |
| • sut y bydd yr awdurdod lleol yn gweithio gyda darparwyr presennol a darpar ddarparwyr i fireinio a datblygu'r gwasanaeth ymhellach. | | | |
| **Systemau dyfarnu effeithiol** | | | |
| Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu un system ariannu ganolog a chorfforaethol ar gyfer rheoli a dyfarnu holl gyllid y trydydd sector. | | | |
| Mae gan yr awdurdod lleol systemau effeithiol i ddyfarnu arian i sefydliadau sy'n nodi'r  canlynol: | | | |
| • amserlen ariannu glir sydd ar gael i bob darpar gynigiwr er mwyn iddo allu paratoi ar gyfer cyfleoedd; | | | |
| • y broses a ddefnyddir i wneud penderfyniad (er enghraifft, ceisio dyfynbrisiau neu ddefnyddio proses dendro neu broses gynnig); | | | |
| • y gwerth a'r risg sy'n gysylltiedig â'r gwahanol lwybrau ariannu; | | | |

| Ardal | Ar waith | Yn cael ei ddatblygu | Ddim ar waith |
|---|---|---|---|
| • a ellir mabwysiadu prosesau llai manwl yn unol â **Chyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus yr UE** er mwyn penodi sefydliadau i wneud y gwaith; | | | |
| • meini prawf clir a chyhoeddedig a ddeëllir gan bob sefydliad sy'n ceisio arian, gan gynnwys cymalau budd i'r gymuned; | | | |
| • y gost a'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn i'r awdurdod lleol oruchwylio a gweinyddu'r broses; | | | |
| • am faint o amser y darperir arian; a | | | |
| • sut yr eir ati i adennill costau llawn. | | | |
| **Systemau dyfarnu effeithlon** | | | |
| Mae gan yr awdurdod lleol systemau corfforaethol effeithlon i ddyfarnu arian sy'n seiliedig ar y canlynol: | | | |
| • prosesau gwneud cais cryno a chlir; | | | |
| • defnyddio systemau ar-lein ac electronig i ddosbarthu a choladu gwybodaeth a cheisiadau; | | | |
| • trefniadau gwneud penderfyniadau byr o'r dechrau i'r diwedd; | | | |
| • y nifer leiaf bosibl o gamau a phrosesau sydd eu hangen i wneud penderfyniad; a | | | |
| • phenderfyniadau yn cael eu dirprwyo i'r lefel isaf. | | | |

| Ardal | Ar waith | Yn cael ei ddatblygu | Ddim ar waith |
|---|---|---|---|
| **Grantiau neu gontractio** | | | |
| Mae'r awdurdod lleol wedi nodi'r amgylchiadau lle y bydd yn defnyddio arian grant a'r amgylchiadau lle y bydd yn contractio gwasanaethau. Mae hyn wedi'i rannu â phob darpar gynigiwr, gan gynnwys y trydydd sector. | | | |
| Mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod y broses hon yn gyson ac yn briodol i'r risgiau a'r swm o arian sy'n cael ei roi. | | | |
| Mae telerau ac amodau contract yr awdurdod lleol yn gymesur â'r arian sy'n cael ei roi ac yn ymwneud yn benodol â'r gwaith sy'n cael ei ariannu. | | | |
| Mae'r awdurdod lleol yn adolygu'r prosesau ariannu hyn er mwyn sicrhau nad ydynt yn atal sefydliadau yn y trydydd sector rhag cael gwaith gan yr awdurdod lleol yn anfwriadol. | | | |
| **Hyfforddiant** | | | |
| Mae'r awdurdod lleol yn darparu hyfforddiant i gefnogi'r trydydd sector sy'n cwmpasu'r canlynol: | | | |
| • sut i wneud cais am arian – yr hyn y dylid ei wneud a pheidio â'i wneud; | | | |
| • cydymffurfio â systemau caffael yr awdurdod lleol; | | | |
| • prosesau casglu data; | | | |
| • trefniadau rheoli perfformiad a chraffu; | | | |
| • cylchoedd talu a thargedau perfformiad; a | | | |
| • therfynu contractau/gofynion o ran parhau. | | | |

| Ardal | Ar waith | Yn cael ei ddatblygu | Ddim ar waith |
|---|---|---|---|
| **3. Rheoli perfformiad** | | | |
| **Casglu gwybodaeth** | | | |
| Mae'r awdurdod lleol wedi nodi'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn monitro a gwerthuso perfformiad sefydliadau yn y trydydd sector a ariennir ganddo a nodir y wybodaeth hon yn y cytundeb ar gyfer gwaith a ariennir. | | | |
| Mae'r wybodaeth ond yn mesur gweithgarwch perthnasol. | | | |
| Mae'r systemau i gasglu gwybodaeth yn syml ac yn effeithlon ac mae sefydliadau yn y trydydd sector ond yn cyflwyno gwybodaeth unwaith ac yn electronig yn unol ag amserlenni y cytunwyd arnynt. | | | |
| **Adolygu perfformiad** | | | |
| Mae'r awdurdod lleol yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar gyllid y trydydd sector i bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth am berfformiad sy'n cwmpasu'r awdurdod lleol cyfan. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys y canlynol: | | | |
| • safonau clir o ran yr hyn y mae'n ofynnol i sefydliadau yn y trydydd sector berfformio yn ei erbyn a sut y dylent wneud hynny, sy'n ymwneud yn benodol â'r gwasanaeth a ariennir gan yr awdurdod lleol; | | | |
| • casgliadau adolygiadau archwilio/arolygu mewnol; a | | | |
| • data perfformiad perthnasol seiliedig ar wasanaethau. | | | |
| Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi'r prosesau cywir ar waith i graffu ar berfformiad a'i farnu. Dylai'r rhain fod yn gymesur â gwerth yr arian ond sicrhau eu bod yn rhoi sicrwydd i'r awdurdod lleol bod ei arian yn cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig. | | | |

| Ardal | Ar waith | Yn cael ei ddatblygu | Ddim ar waith |
|---|---|---|---|
| **Rheoli risg a'r gwasanaeth archwilio mewnol** | | | |
| Ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig ag ariannu'r trydydd sector ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaeth wrth ddatblygu cynlluniau rheoli risg ar draws yr awdurdod lleol a chytuno arnynt. | | | |
| Cynhelir rhaglen dreigl o systemau archwilio mewnol ac adolygiadau o gydymffurfiaeth mewn perthynas â'r modd y mae'r awdurdod lleol yn ariannu gwasanaethau'r trydydd sector, ei systemau a'i arferion. | | | |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru